Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

DEDDF RHEOLEIDDIO AC AROLYGU
GOFAL CYMDEITHASOL (CYMRU) 2016

Rheoleiddio i Iwyddo

Unigolion Cyfrifol

Adnodd Gwybodaeth a Dysgu ar gyfer Unigolion Cyfrifol mewn perthynas â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Cynnwys

Pennod 1. Cyflwyniad

Pennod 2. Cefndir: Deddfwriaeth, Rheoliadau a Chanllawiau

Pennod 3. Meddwl am Ansawdd ym maes Gofal Cymdeithasol

Pennod 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth Effeithiol

Pennod 5. Hyrwyddo Diwylliant Cadarnhaol

Cynllun Datblygu Amlinellol

Atodiad A. Amlinelliad o'r Gofynion ar Ddarparwyr Gwasanaethau

Atodiad B. Amlinelliad o'r Gofynion ar Unigolion Cyfrifol

Atodiad C. Amlinelliad o'r Codau Ymarfer a Chanllawiau Ymarfer:

- Y Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol
- Y Côd Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr Gofal Cymdeithasol
- Y Rheolwr Gofal Cymdeithasol: Canllawiau Ymarfer ar gyfer Rheolwyr Gofal Cymdeithasol sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru

Atodiad D. Y Prif Egwyddorion sy'n sail i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Geirfa

Dolenni Defnyddiol

Pennod 1. Cyflwyniad

1.1 Diben yr Adnodd Gwybodaeth a Dysgu hwn

Diben yr adnodd hwn yw helpu Unigolion Cyfrifol i gyflawni eu cyfrifoldebau o dan *Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016* ('Deddf 2016') a'r Rheoliadau a Chanllawiau Statudol cysylltiedig.

Dylai fod o ddiddordeb hefyd i ddarparwyr gwasanaethau a rheolwyr[1] i'w helpu i ddeall rolau a chyfrifoldebau Unigolion Cyfrifol, darparwyr gwasanaethau a rheolwyr a sut mae'r rhain yn ategu ei gilydd.

Mae'n **rhaid** darllen yr adnodd hwn ar y cyd â'r canlynol:

- *Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016*
- *Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2017* ac
- Y Canllawiau Statudol i Ddarparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol am Gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Gwasanaeth 2018

1.2 Cynnwys a Strwythur yr Adnodd

Mae Pennod 2 yn amlinellu rhai o'r **prif newidiadau** a gyflwynwyd gan Ddeddf 2016 a'r Rheoliadau a'r Canllawiau Statudol cysylltiedig. Mae Pennod 3 yn archwilio'r cysyniad o **ansawdd ym maes gofal cymdeithasol** a rhai o'r elfennau gwahanol sy'n cyfrannu at ddatblygu gwasanaethau o ansawdd uchel. Mae Pennod 4 yn ystyried y gofynion mewn perthynas ag **arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol** ac mae Pennod 5 yn ystyried sut y gall Unigolion Cyfrifol helpu i **hyrwyddo diwylliant gwasanaeth cadarnhaol**.

Mae pob Pennod yn cynnwys:

Cyfeiriadau at **Reoliadau Cysylltiedig**

Cyfleoedd i **Fyfyrio**

[1]Yn yr adnodd hwn, mae'r term 'rheolwr' yn cyfeirio at berson sydd wedi'i benodi i reoli gwasanaeth rheoleiddiedig yn unol â'r gofynion a nodir yn Rheoliadau 67-71 o'r Canllawiau Statudol i Ddarparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol am Gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Gwasanaeth.

Ymarferion ac Offerynnau i gefnogi dysgu a datblygiad yr Unigolion Cyfrifol a'u helpu i asesu a gwella ansawdd gwasanaethau

Dolenni i **Ragor o Wybodaeth ac Adnoddau**

Mae'r adnodd hefyd yn cynnwys Cynllun Datblygu amlinellol a allai fod yn ddefnyddiol i Unigolion Cyfrifol a Darparwyr Gwasanaethau o ran nodi eu cryfderau ar hyn o bryd, meysydd ar gyfer dysgu a datblygu pellach, ac adnoddau perthnasol.

Mae'r Atodiadau'n cynnwys fersiynau cryno o gyfrifoldebau darparwyr gwasanaethau, Unigolion Cyfrifol, codau ymarfer a chanllawiau ymarfer perthnasol, a'r prif egwyddorion sy'n sail i *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* ('Deddf 2014'). Mae'r fersiynau hyn wedi'u cynnwys er mwyn gallu cyfeirio'n hawdd atynt ond mae'n **rhaid** eu darllen ar y cyd â Deddf 2016 a'r Rheoliadau a Chanllawiau Statudol.

DS Gan amlaf, bydd gan unigolion sydd wedi'u dynodi'n Unigolion Cyfrifol rolau sefydliadol yn ogystal â'u rolau penodol fel Unigolion Cyfrifol ac felly mae'n debygol y bydd ganddynt gyfrifoldebau'n ychwanegol at y rheini a nodir yn y Rheoliadau a'r Canllawiau Statudol y cyfeirir atynt uchod. Ymhellach, bydd gan unigolion sydd wedi'u dynodi'n Unigolion Cyfrifol wahanol raddau o brofiad wrth gyflawni'r rôl yn ogystal â gwahanol strwythurau cymorth i ddibynnu arnynt mewn perthynas â sicrhau ansawdd. Felly gellir defnyddio'r Adnodd Gwybodaeth a Dysgu yn hyblyg gan ystyried gofynion unigol ac amgylchiadau sefydliadol.

1.3 Cydnabyddiaethau

Comisiynwyd yr Adnodd Gwybodaeth a Dysgu hwn gan Gofal Cymdeithasol Cymru mewn partneriaeth ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Yn ogystal â thynnu ar yr adnoddau amrywiol y cyfeirir atynt yn y testun, fe'i datblygwyd mewn ymgynghoriad â rheolwyr, unigolion cyfrifol, darparwyr gwasanaethau a rheolwyr datblygu'r gweithlu. Mae cydweithwyr o bob cwr o Gymru wedi gwneud cyfraniadau defnyddiol iawn at ddatblygu'r adnodd hwn ar wahanol gamau o'r gwaith drwy gyfres o ddigwyddiadau a thrwy'r e-bost. Mae'r gwaith hwn wedi'i gefnogi hefyd gan grŵp ffocws a gyfarfu ar ddau achlysur i gynghori ar gynnwys.

Hoffai Gofal Cymdeithasol Cymru ac AGC ddiolch i bob un o'r uchod am eu hymroddiad i ddatblygu'r adnodd pwysig hwn ac am eu cyfraniadau cadarnhaol a defnyddiol tu hwnt.

Pennod 2.

Deddfwriaeth, Rheoliadau a Chanllawiau

2.1 Y Prif Newidiadau ym maes Rheoleiddio ac Arolygu

Mae *Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016* ('Deddf 2016') yn sicrhau mai ansawdd gwasanaethau a gwella gwasanaethau yw hanfod y broses reoleiddio, yn cryfhau trefniadau amddiffyn i'r rhai sydd eu hangen ac yn sicrhau bod gwasanaethau'n darparu gofal a chymorth o safon uchel. Mae Deddf 2016 yn cefnogi *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* ('Deddf 2014') sy'n diogelu hawliau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth yn y gyfraith.

Mae'r newidiadau eang a gyflwynwyd gan Ddeddf 2016 yn cynnwys:

- cyflwyno adroddiadau lleol a chenedlaethol ar **Sefydlogrwydd y Farchnad**; a gwell trefniadau goruchwylio marchnad o ddarparwyr gan y rheoleiddiwr gwasanaethau.

- sefydlu **Gofal Cymdeithasol Cymru** gyda chyfrifoldeb am reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol a hyfforddiant gofal cymdeithasol; darparu hyb gwybodaeth; comisiynu ymchwil i ofal cymdeithasol; a gweithio gydag eraill i wella a datblygu gwasanaethau gofal a chymorth penodol ledled Cymru.

- newidiadau i **Reoleiddio'r Gweithlu**: mae gofyn i weithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal preswyl plant a rheolwyr gofal cymdeithasol (y rhai sy'n rheoli gofal cartref a chartrefi gofal preswyl) gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru eisoes – mae Deddf 2016 yn darparu ar gyfer cyflwyno cofrestru gorfodol i grwpiau eraill o weithwyr gofal cymdeithasol yn raddol.

- gwelliannau **mewn Rheoleiddio Gwasanaethau** yn cynnwys:

    - symud o system reoleiddio sy'n canolbwyntio ar gydymffurfio â safonau gofynnol tuag at system a diwylliant sy'n canolbwyntio ar effaith gwasanaethau gofal a chymorth ar fywydau, llesiant a chanlyniadau personol unigolion

    - symud i fodel darparwyr gwasanaethau o gofrestru

    - ehangu'r amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio

    - rhoi mwy o bwerau i reoleiddiwr y gwasanaeth i sicrhau gwelliannau yn ansawdd gofal a chymorth

    - system newydd o ddatganiadau blynyddol

- adfer y cydbwysedd cywir o ran atebolrwydd yn y system gofal cymdeithasol i sicrhau bod cyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr ac uwch reolwyr yn atebol o dan y gyfraith

- mwy o rôl i'r Unigolyn Cyfrifol.

Mae cyflwyno mwy o rôl i'r Unigolyn Cyfrifol yn ddatblygiad pwysig iawn o ran hyrwyddo, monitro a gwella ansawdd gwasanaethau – yn cynnwys ymweld â'r gwasanaeth yn bersonol - a sicrhau llinellau atebolrwydd clir rhwng perchnogion, cyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr, uwch reolwyr cwmnïau ac ymarfer rheng flaen.

Mae rhagor o wybodaeth am y newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2016 a'r Rheoliadau a'r Canllawiau cysylltiedig wedi'i chynnwys ym Memorandwm Esboniadol y Gweinidog (Tachwedd 2017).

2.2 Ar ba wasanaethau mae Deddf 2016 yn effeithio?

Mae Deddf 2016 yn ehangu'n sylweddol yr amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio ac felly mae'n effeithio ar ystod eang o sefydliadau darparu, rheolwyr, staff ac unigolion, eu gofalwyr a'u teuluoedd.

Mae'r gwasanaethau rheoleiddiedig yn cynnwys: gwasanaethau cartrefi gofal i blant neu oedolion; gwasanaethau llety diogel i blant; canolfannau preswyl i deuluoedd; gwasanaethau mabwysiadu; gwasanaethau maethu; gwasanaethau lleoli oedolion; gwasanaethau eiriolaeth; a gwasanaethau gofal a chymorth cartref. Mae cartrefi plant yn cael eu hystyried yn wasanaethau cartrefi gofal o dan y rheoliadau gwasanaeth ac mae gwasanaethau cartrefi gofal yn cynnwys cartrefi preswyl yn ogystal â chartrefi nyrsio.

Mae'r Ddeddf yn berthnasol i ddarparwyr sy'n darparu gwasanaethau rheoleiddiedig ym mhob sector: awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol a chymunedol, sefydliadau darparu dielw a'r sector preifat neu unigolion.

2.3 Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol

Cyhoeddwyd Canllawiau Statudol (Drafft) mewn perthynas â Rhan 3 i 20 o *Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2017*.

- Mae Rhannau 3 i 15 o'r Rheoliadau'n nodi'r gofynion ar ddarparwr gwasanaethau o ran safon y gwasanaeth sy'n rhaid ei ddarparu. Mae'r safonau hyn yn gysylltiedig â'r datganiad canlyniadau llesiant a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 8 o Ddeddf 2014 ac yn amlygu pwysigrwydd llesiant unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gosod gofynion eraill ar ddarparwyr ynghylch gweithredu'r gwasanaeth rheoleiddiedig. Mae amlinelliad o'r gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau wedi'i gynnwys yn Atodiad A.
- Mae Rhannau 16 i 20 o'r Rheoliadau'n nodi'r dyletswyddau a roddir ar yr Unigolyn Cyfrifol dynodedig mewn perthynas â gwasanaeth rheoleiddiedig. Mae'r dyletswyddau'n cynnwys:
    - goruchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaeth, yn cynnwys penodi rheolwr addas a chymwys
    - sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n effeithiol yn cynnwys bod ganddo ddigon o adnoddau
    - adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth
    - a hyrwyddo diwylliant o weithredu'n agored ac atebolrwydd.
- Y bwriad yw sicrhau bod person dynodedig ar lefel uwch briodol yn atebol am ansawdd a chydymffurfiaeth y gwasanaeth ac yn sicrhau bod yna gadwyn atebolrwydd glir yn cysylltu cyfrifoldeb corfforaethol y darparwr gwasanaethau a'r Unigolyn Cyfrifol gyda rôl rheolwr y gwasanaeth. Mae amlinelliad o'r gofynion ar Unigolion Cyfrifol wedi'i gynnwys yn Atodiad B.

Oni bai ei fod yn rheolwr hefyd, nid yw'r Unigolyn Cyfrifol yn gyfrifol am reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd; y rheolwr sy'n gyfrifol am hyn.

Mae rhagor o wybodaeth am ofynion cofrestru ar gael ar wefan AGC.

Mae canlyniadau posibl i ddarparwyr gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol os nad ydynt yn cydymffurfio wedi'u nodi yn Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) 2017.

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu rhai o brif gyfrifoldebau Darparwyr Gwasanaethau, Unigolion Cyfrifol a Rheolwyr. Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys pob un - amlinellu eu meysydd cyfrifoldeb yw ei bwriad, a sut maent yn ategu ei gilydd.

Amlinelliad o Gyfrifoldebau Darparwyr Gwasanaethau, Unigolion Cyfrifol a Rheolwyr		
Darparwr Gwasanaeth	**Unigolyn Cyfrifol**	**Rheolwr**
Datblygu a sefydlu diwylliant sy'n adlewyrchu egwyddorion cyd-gynhyrchu, yn parchu amrywiaeth, yn sicrhau bod y canlyniadau gorau posibl yn cael eu cyflawni ar gyfer unigolion, ac yn bodloni gofynion y Rheoliadau. Mae'n hyrwyddo diwylliant o weithredu'n agored, yn onest ac yn ddidwyll ar bob lefel a sicrhau ymatebion priodol ac effeithiol i bryderon a chwynion. Mae'n hyrwyddo llais a rheolaeth yn cynnwys darparu gwybodaeth am wasanaethau eiriolaeth a helpu pobl i'w defnyddio.		
Gosod bwriad a chyfeiriad clir ar gyfer y sefydliad drwy amlinellu'r gwasanaethau a ddarperir a'r camau fydd y darparwr yn eu cymryd i gyflawni hyn yn y datganiad o ddiben.	Goruchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaeth a sicrhau ei fod yn ddiogel, yn cael ei redeg yn dda ac yn cydymffurfio â rheoliadau.	Arwain a rheoli gwasanaeth sy'n diwallu anghenion unigolion, yn diogelu ac yn hyrwyddo llesiant a datblygiad pobl.
Dynodi Unigolyn Cyfrifol, gan sicrhau ei fod yn cael cymorth a hyfforddiant priodol.	Penodi rheolwr, gan sicrhau ei fod yn cael ei oruchwylio, ei gefnogi a'i hyfforddi'n briodol.	Recriwtio a phenodi staff a sicrhau eu bod cael eu goruchwylio, eu cefnogi a'u hyfforddi'n briodol.
Sicrhau bod pob penodiad yn cydymffurfio ag arfer gorau recriwtio diogel. Mynd i'r afael ag unrhyw broblemau mewn perthynas â pherfformiad anfoddhaol neu gamymddwyn gan staff a hysbysu'r corff rheoleiddio priodol am unrhyw ymddygiad gan weithiwr proffesiynol cofrestredig a allai daflu amheuaeth ar ei gofrestriad.		
Rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith i gynorthwyo rheolwyr a staff i gyflawni nodau'r gwasanaeth a chyflawni canlyniadau personol unigolion.	Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n gyfredol, yn gyson â'r datganiad o ddiben a deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol perthnasol.	Cyfrannu at ddatblygu polisïau a gweithdrefnau. Sicrhau bod arferion yn canolbwyntio ar y dinesydd, bod gan unigolion lais cryf, eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch, a bod eu hawliau'n cael eu hyrwyddo.
Sefydlu strwythurau rheoli cadarn i oruchwylio a monitro'r gwasanaeth i sicrhau ei fod yn gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol ar gyfer yr unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth.	Sicrhau llinellau atebolrwydd, dirprwyo a chyfrifoldeb clir rhwng yr Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr. Sicrhau bod y darparwr gwasanaeth yn cael ei hysbysu am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth.	Arwain a rheoli timau staff, hyrwyddo ymddygiad da ac arfer gorau a diwylliant cadarnhaol yn y gweithle. Arwain a rheoli iechyd a diogelwch personol a diogelwch eiddo, yn cynnwys asesu, atal a rheoli risg.
Sicrhau bod y gwasanaeth yn ymatebol a rhagweithiol wrth nodi a lliniaru risgiau, a chefnogi pobl i gymryd risgiau cadarnhaol ac i fod yn annibynnol lle mae hyn wedi cael ei bennu'n briodol.		
Sefydlu cylch parhaus o sicrhau ac adolygu ansawdd i roi sicrwydd bod y gwasanaeth yn gweithredu'n unol â gofynion cyfreithiol, ei ddatganiad o ddiben, ac yn cefnogi unigolion i gyflawni eu canlyniadau personol. Caiff gwybodaeth fonitro ei defnyddio i ddatblygu a gwella'n barhaus.	Dilyn systemau a phrosesau sydd wedi'u pennu gan ddarparwr y gwasanaeth fel bod modd goruchwylio rheolaeth, ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd yn briodol. Sicrhau bod systemau ar waith i asesu, monitro a gwella ansawdd a diogelwch y gwasanaeth.	Gweithredu systemau a phrosesau i fonitro a gwerthuso ymarfer a sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â gofynion proffesiynol a rheoliadol ac yn cefnogi unigolion i gyflawni eu canlyniadau llesiant personol.
Parhau i oruchwylio'r trefniadau ariannol a'r buddsoddi i sicrhau cynaliadwyedd fel bod unigolion	Adrodd i ddarparwr y gwasanaeth ynghylch a yw'r adnoddau sydd ar	Helpu i nodi adnoddau priodol er mwyn darparu gwasanaethau diogel ac effeithiol o ansawdd.

yn cael cymorth i gyflawni canlyniadau personol a chael eu gwarchod rhag risg newid heb ei gynllunio.	gael i ddarparu'r gwasanaeth yn ddigonol.	Sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol a thynnu sylw at unrhyw bryderon am eu digonolrwydd.
Ffynhonnell: *Canllawiau Statudol i Ddarparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol am Gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Gwasanaeth,* a *Chanllawiau Ymarfer ar gyfer Rheolwyr Gofal Cymdeithasol sydd wedi Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru* (2017).		

2.4 Pwy all weithredu fel Unigolyn Cyfrifol?

Nid oes rhaid i Unigolion Cyfrifol gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ond mae'n rhaid iddynt fodloni prawf person addas a phriodol. Mae'n rhaid i AGC fod yn fodlon y gall pobl sydd wedi'u dynodi fel Unigolion Cyfrifol gydymffurfio â'r dyletswyddau a nodwyd yn y rheoliadau o dan adran 28 o'r Ddeddf.

Mae'r ystyriaethau perthnasol mewn perthynas ag a all darparwr gwasanaeth neu Unigolyn Cyfrifol gael ei ystyried yn berson addas a phriodol wedi'u hamlinellu yn Adran 9 o Ddeddf 2016. Mae'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer Unigolion Cyfrifol a'r rhesymau dros ddiddymu dynodiad rhywun fel Unigolyn Cyfrifol wedi'u nodi yn Adrannau 21 a 22 o Ddeddf 2016 yn ôl eu trefn.

Wrth ystyried pwy i'w ddynodi'n Unigolyn Cyfrifol mae'n bwysig cydnabod natur gymhleth ac amrywiol gwasanaethau rheoleiddiedig a'r gwahanol fathau a meintiau o sefydliadau sy'n eu darparu. Mae hyn yn golygu y bydd y rhai sydd wedi'u dynodi'n Unigolion Cyfrifol yn cyflawni amrywiaeth o gyfrifoldebau yn ogystal â'r rôl ddynodedig a allai gynnwys, er enghraifft: ymddiriedolwr, perchennog, cyfarwyddwr, uwch reolwr a / neu reolwr. Bydd angen i ddarparwyr ystyried sut y bydd unigolion yn rheoli'r ystod o gyfrifoldebau felly ac unrhyw wrthdaro posibl a allai godi rhwng eu rolau gwahanol.

Mae rhagor o wybodaeth am y prawf person addas a phriodol ar gael ar wefan AGC.

2.5 Cymorth ar gyfer Unigolion Cyfrifol

Mae'r Gofynion mewn perthynas â'r Unigolyn Cyfrifol (Rheoliad 9) yn golygu bod rhaid i'r darparwr gwasanaethau sicrhau bod y sawl sydd wedi'i ddynodi'n Unigolyn Cyfrifol yn cael cymorth i gyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol ac ymgymryd â hyfforddiant priodol. Mae'r Canllawiau Statudol cysylltiedig yn datgan:

- Bydd gan y darparwr gwasanaethau drefniadau ar waith er mwyn cynnal trafodaethau ffurfiol rheolaidd â'r Unigolyn Cyfrifol ac i roi cymorth iddo

- Bydd y darparwr gwasanaethau'n rhoi cymorth i'r unigolyn cyfrifol ddilyn hyfforddiant sy'n ei alluogi i gyflawni ei rôl yn effeithiol a chyflawni nodau'r gwasanaeth fel y maent yn y datganiad diben ac yn unol â'r canllawiau ymarfer a argymhellir gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae hyfforddiant ar gyfer unigolion cyfrifol yn cynnwys hyfforddiant ar:

- y fframwaith a'r gofynion deddfwriaethol
- dyletswyddau penodol unigolyn cyfrifol
- rheoli perfformiad ac ansawdd gwasanaeth
- llywio diwylliant gwasanaeth.

Mae Rheoliad 10 yn nodi gofynion a chanllawiau tebyg mewn perthynas â hyfforddiant Unigolion Cyfrifol lle mae'r darparwr gwasanaethau'n unigolyn. Mae Rheoliadau 9 a 10 hefyd yn nodi'r gofynion os yw'r Unigolyn Cyfrifol yn absennol, yn cynnwys hysbysu rheoleiddiwr y gwasanaeth.

2.6 Paratoi ar gyfer rôl Unigolyn Cyfrifol

Myfyrio

- Beth sydd angen i'r darparwr gwasanaethau ei wneud i hwyluso fy ngwaith fel Unigolyn Cyfrifol?
- Sut galla i baratoi ar gyfer rôl Unigolyn Cyfrifol?

Mae'r awgrymiadau isod yn seiliedig ar drafodaethau gyda rheolwyr, Unigolion Cyfrifol a darparwyr gwasanaethau, rhai ohonynt â phrofiad o gyflawni mwy nag un o'r rolau hyn. Fe'u bwriedir i helpu darparwyr ac unigolion sydd wedi'u dynodi'n Unigolion Cyfrifol i baratoi ar gyfer sefydlu a chyflawni rôl Unigolyn Cyfrifol.

Paratoi i sefydlu a chyflawni rôl Unigolyn Cyfrifol

- Pa waith mae'r darparwr gwasanaethau eisoes wedi'i wneud mewn perthynas â'r gofynion yn Rhannau 3 i 15 o'r Rheoliadau? Pa waith pellach sydd ei angen?
- Pa drefniadau sydd gan y darparwr gwasanaethau ar waith mewn perthynas â chymorth a hyfforddiant ar gyfer yr Unigolyn Cyfrifol mewn perthynas â Rheoliadau 9 neu 10?
- Pa heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth ar hyn o bryd mewn perthynas â chomisiynu ac adnoddau? Pa gamau pellach y gallai fod angen i'r darparwr a'r Unigolyn Cyfrifol eu cymryd i sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael i ddarparu gwasanaeth o ansawdd?

- A oes gan y darparwr gwasanaethau a'r Unigolyn Cyfrifol ddealltwriaeth dda o'r fframwaith comisiynu lleol ac a ydynt wedi sefydlu presenoldeb cefnogol mewn rhwydweithiau lleol?
- Pa sgiliau, gwybodaeth a phrofiad sydd gan yr Unigolyn Cyfrifol yn barod sy'n berthnasol i'r Unigolyn Cyfrifol mewn perthynas â'r maes

Pennod 3.

Meddwl am Ansawdd ym maes Gofal Cymdeithasol

3.1 Gwella ansawdd gofal a chymorth

Un o brif nodau Deddf 2016 yw gwella **ansawdd gofal a chymorth yng Nghymru** yn barhaus. Mae'r Ddeddf yn pwysleisio pwysigrwydd:

- **Gwella llesiant** drwy fonitro ac asesu effaith gwasanaethau ar fywydau pobl
- **Rhoi llais cryfach** i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau
- **Cryfhau trefniadau amddiffyn** drwy bwerau rheoleiddio a mwy o dryloywder a chymharedd ledled gwasanaethau yng Nghymru
- **Cynyddu atebolrwydd** darparwyr gwasanaethau drwy sicrhau cysylltiad clir rhwng arweinyddiaeth, diwylliant a llesiant.

Mae yna amrywiaeth o ffactorau sy'n cyfrannu at wasanaethau o ansawdd da ym maes gofal cymdeithasol. Mae'r bennod hon yn amlygu rhai o'r prif elfennau y bydd angen i Unigolion Cyfrifol eu hystyried wrth gyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer adolygu a gwella ansawdd gwasanaethau. Bydd y rhan fwyaf o'r elfennau hyn yn cael eu hystyried ymhellach mewn penodau i ddod gan ddefnyddio'r rheoliadau a'r canllawiau, y Codau Ymarfer ac adnoddau eraill perthnasol.

Hwyrach y bydd gan rai sefydliadau mwy o faint dimau penodol sy'n gyfrifol am fonitro ac adolygu ansawdd gwasanaethau. Ar y llaw arall, mae'n bosibl y bydd Unigolion Cyfrifol mewn sefydliadau llai yn cyflawni'r swyddogaethau hyn yn uniongyrchol. Felly mae angen i'r adran ganlynol gael ei defnyddio'n hyblyg yn unol ag amgylchiadau unigol a sefydliadol.

3.2 Ble ddylem ni ddechrau gydag ansawdd?

Mae gwasanaethau o ansawdd uchel yn canolbwyntio ar beth sy'n bwysig i unigolion a'r canlyniadau llesiant maent am eu cyflawni. Mae gwahanol agweddau ar lesiant yn cynnwys:



Yn achos plant, mae llesiant hefyd yn cynnwys datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol yn ogystal â 'lles' fel y'i dehonglir at ddibenion Deddf Plant 1989. Yn achos oedolion, mae llesiant yn cynnwys bod â rheolaeth dros eu bywydau bob dydd a chymryd rhan mewn gwaith.

Mae ffocws ar lesiant yn gofyn am wasanaethau sydd wedi'u cynllunio o gwmpas yr unigolyn ac yn cydnabod pwysigrwydd perthnasoedd yn hytrach na chael eu rheoli gan weithdrefnau ac arferion.

3.3 Beth yw prif nodweddion ac elfennau gwasanaeth o ansawdd?

Bydd yr hyn sy'n cyfrif fel 'gwasanaeth o ansawdd' yn amrywio o un person i'r llall ond mae tystiolaeth o waith ymchwil, gwerthuso ac arolygu yn tynnu sylw at rai nodweddion cyffredin yn cynnwys:

- mynd ati mewn modd cyfannol i sicrhau llesiant a chynorthwyo unigolion i gyflawni llesiant ym mhob agwedd ar eu bywydau
- gallu cael gafael ar gyngor a chymorth yn gynnar, er mwyn parhau i fyw bywyd o ansawdd da, a lleihau neu ohirio'r angen am ofal a chymorth mwy hirdymor

- rhoi unigolyn wrth wraidd ei ofal a'i gymorth, gan ei alluogi i arfer llais a rheolaeth dros y broses a'r canlyniadau a fydd yn ei helpu i sicrhau llesiant

- cydweithio ag unigolion a gofalwyr wrth ddylunio a darparu cymorth a gwasanaethau, gan gydnabod y wybodaeth a'r arbenigedd sydd ganddynt

- defnyddio dull seiliedig ar asedau a chryfderau a galluogi unigolion i fyw bywydau annibynnol yn ôl eu diffiniad nhw o hynny

- sicrhau cyfleoedd i unigolion gymryd rhan yn y gymuned, cynnal perthnasoedd cadarnhaol a chymryd rhan mewn gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt

- gofal a chymorth sy'n cydnabod pwysigrwydd perthnasoedd, yn adlewyrchu egwyddorion urddas, parch, tosturi ac ymddiriedaeth, ac sy'n gyson ac wedi'i gynllunio'n dda

- diwylliant sy'n galluogi unigolion i deimlo'n ddiogel, yn sicr ac wedi'u grymuso, sy'n hyrwyddo eu hawliau dynol yng ngwir ystyr y gair, ac sy'n mynd ati i reoli risg mewn modd cadarnhaol.

Mae gwasanaethau sy'n gallu cynnig gofal a chymorth gyda'r nodweddion hyn hefyd yn debygol o fod â rhai o'r elfennau allweddol canlynol hefyd:

- arweinyddiaeth hygyrch a rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau llesiant cadarnhaol

- gwaith partneriaeth cryf rhwng yr holl asiantaethau a sefydliadau perthnasol sy'n sicrhau bod unigolion yn cael cymorth cydlynol sy'n gwella'u llesiant

- diwylliant sefydliadol agored, gonest ac atebol

- arferion recriwtio diogel a gweithlu medrus a hyderus, ac sy'n derbyn cymorth cadarnhaol a chyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus

- polisïau, gweithdrefnau a systemau sy'n canolbwyntio ar bobl ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth

- agwedd gadarnhaol at gyfle cyfartal ac amrywiaeth

- adnoddau priodol yn cynnwys digon o staff, a safleoedd, cyfleusterau a chyfarpar addas a hygyrch.

Yng Nghymru, mae'r rhain ac agweddau eraill ar ansawdd yn cael eu hadlewyrchu yn yr egwyddorion sy'n sail i Ddeddf 2014, y rheoliadau a'r canllawiau statudol sy'n cefnogi Deddf 2016 ac mewn Codau Ymarfer a Chanllawiau Ymarfer perthnasol h.y. *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol, Canllawiau Ymarfer ar gyfer Rheolwyr Gofal Cymdeithasol* a'r *Côd Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr Gofal Cymdeithasol*. Er hwylustod, mae'r rhain yn cael eu hamlinellu yn Atodiad C yr adnodd hwn.

3.4 Beth yw cyfrifoldebau'r Unigolion Cyfrifol mewn perthynas â monitro, adolygu a gwella ansawdd gofal a chymorth?

Rheoliadau Cysylltiedig

Mae'r Rheoliadau'n gofyn i Unigolion Cyfrifol roi trefniadau addas ar waith i sefydlu a chynnal system ar gyfer **monitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth** a ddarperir gan y gwasanaeth (Rheoliad 80) a dylai adrodd i'r darparwr gwasanaethau bob 6 mis o leiaf. Mae Unigolion Cyfrifol hefyd yn atebol am ansawdd a chywirdeb y wybodaeth a ddarperir yn y **datganiad o gydymffurfiaeth â'r gofynion o ran safonau gofal a chymorth** i'w gynnwys yn natganiad blynyddol darparwyr gwasanaethau (Rheoliad 81).

Mae'r canllawiau statudol mewn perthynas â Rheoliad 80 yn datgan y dylai'r systemau a'r prosesau sydd ar waith i asesu, monitro a gwella ansawdd gwasanaeth gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- casglu a dadansoddi'r adborth gan y rheini a restrir o dan 76 (1)
- materion a gwersi a ddysgwyd wrth ddadansoddi cwynion a materion diogelu
- patrymau a thueddiadau a welwyd drwy ddadansoddi digwyddiadau arwyddocaol
- canlyniadau unrhyw adroddiadau arolygu gan reoleiddwyr
- canlyniadau ymweliadau monitro gan yr Unigolyn Cyfrifol
- archwiliad o gofnodion.

Myfyrio

- Pa systemau sydd gennych ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd gofal a chymorth ar hyn o bryd?

Asesu a Gwella Ansawdd Gofal Cymdeithasol

- A oes gan y gwasanaeth adnoddau priodol i ddarparu'r gwasanaethau a nodir yn ei ddatganiad o ddiben? Os na, sut bydd hyn yn cael ei godi gyda'r darparwr gwasanaethau a / neu gomisiynwyr?
- Pa mor effeithiol yw'r systemau cyfredol o ran gwneud i chi deimlo'n

Mae angen i wasanaethau o ansawdd uchel esblygu'n barhaus mewn ymateb i amgylchiadau a disgwyliadau sy'n newid a'r galw ar sefydliadau i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys ystyried datblygiadau ymchwil ac ymarfer perthnasol. Mae hefyd yn gofyn am feddwl yn greadigol a pharodrwydd i roi cynnig ar ddulliau a ffyrdd newydd o weithio.

Rhagor o Wybodaeth ac Adnoddau:

Comisiynydd Hawliau Plant Cymru (2016) *Y Gofal Cywir: Hawliau Plant mewn Gofal Preswyl yng Nghymru*

Comisiynydd Plant Cymru (2017) *Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru*

Arolygiaeth Gofal Cymru *Ein Harolygiadau*

Sefydliad Gofal Cyhoeddus (2017) *Leading Integrated and Collaborative Commissioning: A Practice Guide*, Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol Cymru

IRISS - *Improving lives through knowledge, evidence and innovation*

IRISS (2016) *Appreciative Inquiry in Health and Social Care*

Joint Improvement Team *Co-producing Evaluation: why bother involving people in evaluation?*

Joseph Rowntree Foundation – *Developing evidence-enriched practice in health and social care*

Joseph Rowntree Foundation (2012) *My Home Life: promoting quality of life in care homes*

Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol Cymru, Fforwm Darparwyr Cenedlaethol (Cymru) a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (2017) *Augmenting Partnerships in Sustainable Care, Support and Well-Being Services*

NSPCC *Research and Resources*

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2014) *Lle i'w Alw'n Gartref? Adroddiad Adolygiad Cartref Gofal*

Adnoddau Cyfranogaeth Cymru yn cynnwys *Rhoi egwyddorion ar waith: rhestr gyfeirio ar gyfer gweithredu* yn seiliedig ar yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru a'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc

SCIE *Adnoddau Sicrhau Ansawdd*

Gofal Cymdeithasol Cymru (2017) *Ydyn ni'n poeni'n wirioneddol am ansawdd gofal cymdeithasol?*

Gofal Cymdeithasol Cymru *Hyb Gwybodaeth a Dysgu*

Scottish Social Services Council (2016) *Appreciative Inquiry Resource Pack*

Sgiliau Gofal a Datblygu – *Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Arweinyddiaeth a Rheolaeth mewn Gwasanaethau Gofal*

Think Local, Act Personal (2013) *Driving up Quality in Social Care: What is Quality?*

Llywodraeth Cymru – *Diogelu*

Llywodraeth Cymru – *Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol*

Pennod 4.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth Effeithiol

Rheoliadau Cysylltiedig

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaeth ac am ddarparu sicrwydd bod y gwasanaeth yn ddiogel, yn cael ei redeg yn dda ac yn cydymffurfio â rheoliadau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn gyfrifol am sicrhau bod gan y gwasanaeth reolwr, digon o adnoddau a chymorth (Rheoliadau 66 i 79).

4.1 Goruchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaeth

Mae gan Reolwyr Gofal Cymdeithasol rôl ganolog yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol o ansawdd uchel ac mae rheoli gofal cymdeithasol yn effeithiol yn gofyn am set gymhleth o sgiliau sy'n cynnwys crebwyll busnes sy'n cyd-fynd â gwerthoedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gallu i ddatblygu a throi gweledigaeth o wasanaeth yn ymarfer bob dydd.

Mae *Y Rheolwr Gofal Cymdeithasol* yn darparu canllawiau ymarfer i reolwyr gofal cymdeithasol sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, ond mae hefyd yn ddogfen allweddol i Unigolion Cyfrifol wrth ystyried sut maent yn ymgymryd â'u meysydd cyfrifoldeb a ffiniau eu rôl eu hunain mewn perthynas â rhai'r rheolwr.

Oni bai mai'r un person yw'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr, nid yw'r Unigolion Cyfrifol yn gyfrifol am reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd: y rheolwr cofrestredig sy'n gyfrifol am hynny. Mae angen i Unigolion Cyfrifol ystyried ffiniau eu rôl a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â rhai'r rheolwr.

Myfyrio

- Beth yw'r materion allweddol y mae angen i chi eu hystyried wrth reoli'ch rôl fel Unigolyn Cyfrifol mewn perthynas â rolau a chyfrifoldebau'r Darparwr Gwasanaethau a'r Rheolwr?

Ffiniau Rôl yr Unigolyn Cyfrifol

- Pan fo rolau Unigolyn Cyfrifol a rheolwr yn cael eu cyflawni gan bobl wahanol, sut gall y darparwr gwasanaethau a'r unigolyn dynodedig helpu i nodi ffiniau clir ar gyfer rôl Unigolyn Cyfrifol? e.e.
  - Datblygu disgrifiadau rôl clir ar gyfer rôl Unigolyn Cyfrifol yn seiliedig ar y rheoliadau a'r canllawiau statudol perthnasol a disgrifiadau swydd clir ar gyfer rheolwyr
  - Gweithio gyda rheolwyr cofrestredig i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw wrthdaro buddiannau posibl rhwng rôl Unigolyn Cyfrifol a chyfrifoldebau eraill yr unigolyn dynodedig
  - Llunio cytundebau ysgrifenedig clir mewn perthynas â chyfrifoldebau dirprwyedig a sicrhau bod y rhain yn gyson â rheoliadau a chanllawiau statudol.
- A yw'r strwythur rheoli wedi'i amlinellu yn y datganiad o ddiben? A yw'n nodi cyfrifoldebau'r Darparwr Gwasanaethau, yr Unigolyn Cyfrifol a'r Rheolwr yn glir?

Datblygwyd Camau Cyntaf mewn Rheoli gan Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi'r rhai sy'n ymgymryd â rôl rheoli gofal cymdeithasol am y tro cyntaf a bydd o ddiddordeb i Unigolion Cyfrifol i ddeall yr heriau a'r cyfleoedd mae'r rheolwyr hyn yn debygol o'u hwynebu a'r math o gymorth y maent yn debygol o fod ei angen yn cynnwys ymsefydlu, goruchwylio a datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'n cynnwys adrannau defnyddiol a dolenni i adnoddau eraill ar Reoli eich Hun; Arwain a Rheoli Tîm ac Arwain a Rheoli Gwasanaeth.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cyhoeddi amrywiaeth o adnoddau eraill a fydd o gymorth i Unigolion Cyfrifol yn cynnwys:

- *Pecyn Cymorth Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer Rheolwyr a Gweithwyr Gofal Cymdeithasol, y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant*
- *Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol: Canllaw ar gyfer Gofal Cymdeithasol, y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant*
- *canllaw ar Hyfforddiant a Dysgu Ôl-gofrestru*
- *Goruchwylio ac Arfarnu Da: Canllaw i Oruchwylio ac Arfarnu Effeithiol i'r rhai sy'n gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol.*

Mae Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru, a gyhoeddwyd gan AcademiWales, yn nodi set o werthoedd craidd ac ymddygiadau arwain sy'n llywio sut y dylai pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus ymddwyn a chydweithio er budd pobl Cymru. Mae cyhoeddiad yr

Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Gofal Cymdeithasol, Leadership Starts with Me, yn nodi rhai gwerthoedd allweddol ar gyfer arweinyddiaeth ym maes gofal cymdeithasol, yn cynnwys:

- **Uniondeb** – *arwain mewn ffordd agored, gonest a moesegol a hyrwyddo cysylltiadau proffesiynol cryf yn seiliedig ar ymddiriedaeth*
- **Urddas** – *annog cyd-barch rhwng pobl, hunan-barch mewn unigolion a hyder personol*
- **Tosturi** – *bod yn ofalgar a gwerthfawrogi pob unigolyn*
- **Cefnogaeth** – *canmol ymdrech, hyrwyddo cydraddoldeb a dathlu llwyddiant*
- **Twf** – *datblygu pobl sydd â gweledigaeth a meddyliau ymchwilgar a bod yn ysbrydoliaeth i eraill gyflawni.*

Goruchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaeth

- Pan fo rolau Unigolyn Cyfrifol a rheolwr yn cael eu cyflawni gan bobl wahanol:
  - pa systemau sydd ar waith gennych i adolygu ac asesu sut mae'r rheolwr yn gweithredu camau sy'n ofynnol yng nghanfyddiadau adroddiadau sicrhau ansawdd mewnol ac arolygu allanol o fewn yr amserlen a bennwyd?
  - pa drefniadau sydd ar waith i'r rheolwr allu cysylltu'n uniongyrchol â'r Unigolyn Cyfrifol yn ogystal â'r cyfle i gyfarfod yn ffurfiol fel rhan o adolygiadau ansawdd yr Unigolyn Cyfrifol?
- Pa drefniadau sydd ar waith i sicrhau bod y rheolwr yn derbyn cefnogaeth ar ffurf goruchwyliaeth broffesiynol, cyfnod sefydlu, hyfforddiant a chyfleoedd priodol i ennill sgiliau ar gyfer datblygiad proffesiynol sy'n ei gynorthwyo yn ei swydd?
- Pa mor aml mae goruchwylio'n digwydd? A yw'n cael ei drefnu a'i gynllunio ymlaen llaw a'i flaenoriaethu? A oes cofnodion o'r materion a drafodir a'r penderfyniadau a wneir? A yw disgwyliadau goruchwylio'n cael eu nodi mewn contract? A oes yna gydbwysedd priodol rhwng y gwahanol agweddau ar oruchwylio: e.e. atebolrwydd rheolwyr, datblygiad proffesiynol a chymorth?
- Pa adborth ydych chi'n gofyn amdano gan reolwyr ac eraill mewn perthynas â'r uchod?

4.2 Penodi Rheolwr

Rheoliadau Cysylltiedig

Mae gan Unigolion Cyfrifol **ddyletswydd i benodi rheolwr** (Rheoliad 67), sicrhau bod y penodiad yn cydymffurfio â'r **gofynion addasrwydd** perthnasol (Rheoliad 68) ac i **adrodd am benodi rheolwr i'r darparwr gwasanaethau** (Rheoliad 70) ac i **reoleiddiwr y gweithlu a'r rheoleiddiwr gwasanaethau** (Rheoliad 71).

Bydd rhai o'r adnoddau y cyfeiriwyd atynt uchod yn helpu Unigolion Cyfrifol gyda'u cyfrifoldebau i benodi rheolwr ac i oruchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaeth. Mae yna amrywiaeth o adnoddau defnyddiol eraill a all helpu unigolion cyfrifol i benodi rheolwyr:

- Mae canllawiau ymarfer *Y Rheolwr Gofal Cymdeithasol* yn dangos pwysigrwydd cael arferion recriwtio cynhwysfawr, cadarn a diogel.
- Mae The Kings Fund wedi datblygu adnodd sy'n darparu dull cyfannol o *Reoli Talent* yn cynnwys recriwtio, datblygu, cadw a lleoli rheolwyr a chynllunio ar gyfer olyniaeth.
- Gall cyhoeddiadau Skills for Care, *Finding and Keeping Workers, Recruiting for Value and Behaviours in Social Care*, y *Leadership Qualities Framework* a'r *Workforce Planning and Development Tool*, fod yn ddefnyddiol i Unigolion Cyfrifol mewn perthynas â'r ddyletswydd hon hefyd. Datblygwyd yr olaf i gynorthwyo sefydliadau i asesu a datblygu eu dull o ymdrin â diwylliant y sefydliad, recriwtio a chadw gweithwyr, dysgu a datblygu, cynllunio yn seiliedig ar gyflenwad a galw, cynllunio ar gyfer olyniaeth a chynllunio gyrfa, rheoli talent a gweithio hyblyg.
- Mae Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu wedi datblygu *Succession Planning Factsheets.*

Mae'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Arwain a Rheoli Gwasanaethau Gofal: *Ymwneud yn weithredol â dethol a recriwtio gweithwyr yn ddiogel a'u cadw mewn gwasanaethau gofal* (SCDLMA3) yn nodi prif elfennau recriwtio a dethol diogel.

Penodi Rheolwr

- A yw polisïau a gweithdrefnau recriwtio, dethol a phenodi eich sefydliad yn gyson â gofynion rheoliadau a chanllawiau statudol?
- Sut mae'ch sefydliad yn mynd ati i gynllunio ar gyfer olyniaeth?

Rheoliadau Cysylltiedig

Mae'r rheoliadau hefyd yn datgan yn eglur y bydd **penodi rheolwr ar gyfer mwy nag un gwasanaeth** yn eithriad a bod **rhaid** cytuno ar hynny ymlaen llaw gyda'r rheoleiddiwr gwasanaethau (Rheoliad 69).

4.3 Pwysigrwydd ymweliadau rheolaidd â'r gwasanaeth

Rheoliadau Cysylltiedig

Mae gofyn i Unigolyn Cyfrifol ymweld yn bersonol â'r gwasanaeth (Rheoliad 73). Bydd mynychder yr ymweliadau hyn yn cael ei bennu gan yr Unigolyn Cyfrifol ar ôl ystyried y datganiad o ddiben, ond rhaid iddynt gael eu cynnal bob tri mis o leiaf.

O dan Reoliad 73, mae'n ofynnol bellach i Unigolion Cyfrifol ymweld â'r holl wasanaethau a reoleiddir y maent wedi'u dynodi iddynt ac *i wneud hynny yn bersonol*. Ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal (plant ac oedolion), gwasanaethau llety diogel a chanolfannau preswyl i deuluoedd, mae'n ofynnol i Unigolion Cyfrifol ymweld â phob man y maen nhw wedi'u dynodi a'u bod yn cwrdd â staff ac unigolion. Yn achos gwasanaethau rheoleiddiedig eraill, mae'n rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol gyfarfod â staff sydd wedi'u cyflogi i ddarparu'r gwasanaeth 'ym mhob man y mae'r unigolyn cyfrifol wedi ei ddynodi mewn cysylltiad ag ef, ohono neu mewn perthynas ag ef,' a gydag unigolion y mae gwasanaeth wedi'i reoleiddio ar ei gyfer. Mae'r Canllawiau Statudol cysylltiedig yn nodi, ar gyfer gwasanaethau gofal cartref, y gallai hyn gynnwys ymweld â sampl gynrychiadol o unigolion yn eu cartrefi eu hunain.

Myfyrio

- Pa drefniadau ydych chi'n eu gwneud i gael caniatâd wrth gyfarfod â phlant, pobl ifanc neu oedolion fel rhan o'ch cyfrifoldebau fel Unigolyn Cyfrifol?

Mae Unigolion Cyfrifol yn ymweld â gwasanaethau er mwyn monitro perfformiad y gwasanaeth mewn perthynas â'i ddatganiad o ddiben ac i fod yn sail i'w hadolygiad o ansawdd y gwasanaeth. Mae'r ymweliadau hyn yn helpu'r Unigolyn Cyfrifol i gael dealltwriaeth fanylach o sut mae'r gwasanaeth yn gweithredu:

- **Arsylwi:** Yn ogystal ag archwilio addasrwydd y safle, mae'r ymweliad yn gyfle i arsylwi ar ansawdd ymarfer; sut mae staff a rheolwyr yn ymwneud ag unigolion a

gofalwyr; sut mae staff ac adnoddau eraill yn cael eu defnyddio; a yw'r adnoddau'n ddigonol i sicrhau gofal a chymorth o ansawdd; ac ati.

- **Gwrando:** Gall y math o iaith a ddefnyddir gan staff fod yn arwydd o sut mae unigolion a gofalwyr yn cael eu gweld a'u parchu. Er enghraifft:

  - Yn *Lle i'w Alw'n Gartref?*, mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru'n rhoi enghreifftiau o iaith a all danseilio unigoliaeth, urddas a'r cysyniad o gartref gofal fel eu cartref *nhw* e.e. cyfeiriadau at "bwydo", "rhoi rhywun ar y toiled", "rhif gwely" ac "unedau".

  - Yn *Y Gofal Cywir: Hawliau Plant mewn Gofal Preswyl yng Nghymru,* mae'r Comisiynydd Plant yn awgrymu mai'r enghraifft gliriaf o ddefnydd gwael o derminoleg yw "LAC" yn Saesneg. Nid yw pobl ifanc yn hoffi cael eu galw'n "LAC" – gan nad ydyn nhw'n ddiffygiol ("lacking") mewn unrhyw ystyr.

Terminoleg negyddol sy'n seiliedig ar ddiffygion	**Terminoleg gadarnhaol sy'n seiliedig ar gryfderau**
Yr henoed bregus	Pobl hŷn ag anghenion cymorth sylweddol
Henoed Eiddil eu Meddwl (EMI)	Pobl â dementia
Pobl wallgof	
Pobl sy'n **dioddef** o ddementia	Pobl sy'n byw gyda dementia
Pobl sydd wedi eu **heffeithio** gan ddementia	
Crwydro	Cerdded
Pobl i'w bwydo	Pobl sydd angen cymorth wrth fwyta
36 (h.y. defnyddio rhif ystafell rhywun sy'n preswylio mewn cartref gofal fel enw iddo)	Peidiwch byth â defnyddio rhifau!
Wedi mynd	Dal yma
Cragen wag	Person
Ffynhonnell: *Gwaith Da: Fframwaith Dysgu a Datblygu Dementia i Gymru*	

- **Siarad:** Dylai gofyn i unigolion a'u cynrychiolwyr am adborth ar y gwasanaeth fod yn rhan allweddol o'r ymweliad. Er enghraifft, gall holi pobl am eu profiad wrth ddod ar eu traws am y tro cyntaf roi cipolwg gwerthfawr ar ddiwylliant gwasanaeth a sut mae ei werthoedd yn cael eu mynegi ar y rheng flaen. Mae cael croeso cynnes neu argraff gyntaf gadarnhaol yn debygol o fod yn bwysig iawn i'r rhai sy'n teimlo'n bryderus neu'n ofidus. Yn ogystal, mae siarad â staff yn gyfle i glywed eu barn ar ymarfer, cymorth a datblygiad proffesiynol.

- **Darllen:** Gall adolygu cofnodion perthnasol gynnwys, er enghraifft:

  - sampl o **gynlluniau personol** a'u cysylltiad â **chynlluniau gofal a chymorth** a **datganiad o ddiben** y gwasanaeth

- adborth gan unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u cynrychiolwyr
- gwersi a ddysgwyd o ddadansoddi cwynion, materion diogelu a digwyddiadau arwyddocaol eraill
- canlyniadau adroddiadau arolygu allanol a phrosesau adolygu ansawdd y sefydliad
- camau gweithredu a gymerwyd mewn perthynas ag unrhyw argymhellion a wnaed yn cynnwys y rhai sy'n codi o ymweliadau ac adroddiadau'r Unigolyn Cyfrifol ei hun.

4.4 Sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n effeithiol

Rheoliadau Cysylltiedig

Mae'r gofyniad i Unigolion Cyfrifol sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n effeithiol yn cynnwys cyfrifoldeb am **oruchwylio digonolrwydd adnoddau** (Rheoliad 74) a darparu adroddiadau chwarterol i'r darparwr gwasanaethau.

Adolygu digonolrwydd adnoddau

- Sut ydych chi'n sicrhau bod y gwasanaeth yn cyflawni ei ddatganiad o ddiben, bod ganddo ddigon o staff sydd wedi'u hyfforddi, yn gymwys ac yn meddu ar y sgiliau i gyflawni eu swydd a bod ganddo ddigon o adnoddau, cyfleusterau a chyfarpar?
- Pa systemau a phrosesau sydd gennych i ddarparu gwybodaeth am unrhyw feysydd a allai fod angen eu hystyried ymhellach neu eu gwella e.e. trosiant staff a lefelau salwch, cwynion, materion diogelu, adroddiadau arolygu gan y rheoleiddiwr gwasanaethau ac asiantaethau eraill fel comisiynwyr, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Gwasanaeth Tân?
- Sut mae'r system hon yn eich galluogi i hysbysu'r darparwr gwasanaethau os nad yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau, ddim yn diwallu neu'n mynd i'r afael â materion a godwyd mewn adroddiadau arolygu neu'n darparu gwasanaeth nad oedd wedi'i gynnwys yn y datganiad o ddiben?
- Ydych chi wedi sefydlu system ar gyfer darparu adroddiadau chwarterol i'r darparwr gwasanaethau?[2]

Rheoliadau Cysylltiedig

Oni bai bod y darparwr gwasanaethau'n unigolyn, mae gofyn i'r Unigolyn Cyfrifol ddarparu **adroddiadau eraill i'r darparwr gwasanaethau** (Rheoliad 75) yn ddi-oed pan fydd unrhyw bryderon ynghylch rheoli neu ddarparu'r gwasanaeth neu unrhyw newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli neu ei ddarparu. Mae gofyn i'r Unigolyn Cyfrifol **ymgysylltu ag unigolion ac eraill (Rheoliad 76)** er mwyn cael safbwyntiau'r unigolion, eu cynrychiolwyr (yn achos plentyn y darperir llety ar ei gyfer), yr awdurdod lleoli, comisiynwyr gwasanaethau a staff sy'n cael eu cyflogi yn y gwasanaeth, ar ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir.

[2] Nid yw'r gofyniad hwn yn berthnasol os yw'r darparwr gwasanaethau yn unigolyn a bod y rheoleiddiwr gwasanaethau wedi cytuno y gall y darparwr gwasanaethau reoli'r gwasanaeth yn unol â Rheoliad 67.

Myfyrio

- Ydych chi wedi sefydlu systemau a phrosesau effeithiol sy'n eich galluogi i asesu, monitro a gwella ansawdd y gwasanaeth, hyrwyddo a gwerthfawrogi cyfraniad unigolion ac annog safbwyntiau unigolion a / neu eu cynrychiolwyr, staff, gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld a chomisiynwyr am eu profiad o'r gofal a'r cymorth a ddarperir?

- Sut ydych chi'n sicrhau eich bod yn cynnal cysylltiadau a pharhau'n hygyrch i bobl y tu allan i'r gwasanaeth yn cynnwys teuluoedd, comisiynwyr, rheoleiddwyr a chyrff proffesiynol?

4.5 Sicrhau Cydymffurfiaeth y Gwasanaeth

Rheoliadau Cysylltiedig

Mae'r gofynion ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth y gwasanaeth yn cynnwys y **ddyletswydd i sicrhau** bod **systemau yn eu lle i gofnodi digwyddiadau a chwynion** (Rheoliad 77), **y ddyletswydd i sicrhau bod systemau yn eu lle ar gyfer cadw cofnodion** (Rheoliad 78) a'r **ddyletswydd i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn gyfredol** (Rheoliad 79).

- Pa drefniadau sydd yn eu lle i sicrhau bod mynediad i gofnodion electronig yn ddiogel a bod gan staff godau mynediad unigol sy'n galluogi llwybr archwilio clir o unigolion sy'n gwneud cofnodion a newidiadau?

- Pa drefniadau sydd gennych i sicrhau bod systemau effeithiol yn eu lle i gofnodi digwyddiadau, cwynion a materion y mae'n rhaid gwneud hysbysiadau yn eu cylch (Rheoliad 58 ac 80)?

- Sut ydych chi'n sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n cyd-fynd â deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol cyfredol?

- Sut ydych chi'n sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar gael ac yn hygyrch i staff, ac i unigolion a'u cynrychiolwyr ac awdurdodau lleoli a chomisiynwyr perthnasol ar gais?

- Pa drefniadau sydd wedi'u gwneud i sicrhau bod polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau'r sefydliad yn cael eu diweddaru yn sgil newidiadau i ymarfer, newidiadau i ddeddfwriaeth ac arferion gorau?

- Pa drefniadau sydd yn eu lle i sicrhau bod gan staff wybodaeth a dealltwriaeth o'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n eu cefnogi yn eu gwaith i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i unigolion.

- Pa gyfleoedd sydd gan unigolion a'u cynrychiolwyr i gyfrannu at ddatblygu polisïau a chanllawiau?

Rhagor o wybodaeth ac Adnoddau Dysgu:

ACAS – Managing Staff Absence: A Step by Step Guide

AcademiWales Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru

Busnes Cymru Dechrau a Chynllunio Busnes

CIPD (2016) Succession Planning Factsheets

Ekosgen a Skills for Care (2013) Why are some employers more successful than others in retaining their workforce

King's Fund (2015) Talent Management: Developing Leadership Not Just Leaders

National Skills Academy for Social Care (2013) Leadership Starts with Me

Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Ymwneud yn weithredol â dethol a recriwtio gweithwyr yn ddiogel a'u cadw mewn gwasanaethau gofal (SCDLMA3)

Reflected Ltd (2014) Factors Affecting the Recruitment and Retention of Adult Care Home Managers in Wales – Executive Summary

Skills for Care Workforce Planning and Development Tool

Skills for Care - Leadership Qualities Framework - Adnoddau

Skills for Care - Recruiting for Values and Behaviours in Social Care

Skills for Care – Finding and Keeping Workers

Sgiliau Gofal a Datblygu – Leadership and Management in Care Services National Occupational Standards

Gofal Cymdeithasol Cymru Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol: Canllaw ar gyfer Gofal Cymdeithasol, y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

Gofal Cymdeithasol Cymru Hyfforddiant a Dysgu Ôl-gofrestru

Gofal Cymdeithasol Cymru (2012) Goruchwylio ac Arfarnu Da: Canllaw i Oruchwylio ac Arfarnu Effeithiol i'r rhai sy'n gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol

Gofal Cymdeithasol Cymru (2012) Pecyn Cymorth Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer Rheolwyr a Gweithwyr Gofal Cymdeithasol, y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

Gofal Cymdeithasol Cymru (2016) Camau Cyntaf mewn Rheoli

Gofal Cymdeithasol Cymru, GIG Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru (2016) Gwaith Da: Fframwaith Dysgu a Datblygu Dementia i Gymru

Gofal Cymdeithasol Cymru (2017) Y Rheolwr Gofal Cymdeithasol: Canllawiau Ymarfer ar gyfer Rheolwyr Gofal Cymdeithasol sydd wedi Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru

Pennod 5.

Hyrwyddo Diwylliant Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau'n gofyn i ddarparwyr gwasanaethau sefydlu, datblygu ac ymgorffori diwylliant sy'n sicrhau bod y canlyniadau gorau posibl yn cael eu cyflawni i unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth a bod y gwasanaeth yn bodloni gofynion rheoliadau (Rheoliad 6). Mae gan ddarparwyr Ddyletswydd Gonestrwydd (Rheoliad 13) hefyd, gyda'r disgwyliad eu bod yn cefnogi diwylliant o ddidwylledd, gonestrwydd a thryloywder. Mae'r pwyslais hwn ar hyrwyddo diwylliant cadarnhaol yn cael ei adlewyrchu yn y gofynion ar gyfer Unigolion Cyfrifol.

Rheoliadau Cysylltiedig

Mae Unigolion Cyfrifol yn gyfrifol am hyrwyddo diwylliant sefydliadol agored ac atebol (Rheoliad 83) ac am roi cymorth i staff sy'n codi pryderon (Rheoliad 82).

5.1 What do we mean by organisational culture?

Defnyddir y term 'diwylliant sefydliadol' yn aml i gyfeirio at y gwerthoedd, agweddau, credoau, rheolau ysgrifenedig ac anysgrifenedig, arferion ac ymddygiadau sy'n helpu i ddiffinio nodweddion unigryw sefydliad sydd wedi'u mynegi yn ei gysylltiadau mewnol ac allanol. Yn fwy penodol, gellir mynegi diwylliant sefydliad yn y ffyrdd canlynol:

- sut mae'n cynnal ei fusnes, yn trin unigolion, gofalwyr, gweithwyr, gweithwyr proffesiynol eraill ac yn ymwneud â'r gymuned ehangach
- sut mae'n parchu gwahaniaeth ac yn hyrwyddo amrywiaeth
- sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a sut mae awdurdod yn cael ei ddirprwyo
- sut mae'n ymateb i syniadau newydd ac arloesedd
- sut mae'n rheoli risg
- sut mae pŵer a gwybodaeth yn llifo drwy'r sefydliad

- i ba raddau mae'n annog rhwydweithiau a phartneriaethau perthnasol ac yn cymryd rhan ynddynt

- sut mae'n cydnabod gwallau a chamgymeriadau ac yn ymdrin â nhw.

Ym maes gofal cymdeithasol, gall diwylliant sefydliadol effeithio'n sylweddol ar berfformiad sefydliadau ac ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir.

Myfyrio

- Beth yw prif werthoedd eich sefydliad a sut mae'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn ymddygiad rheolwyr ac ymarferwyr?

- Sut byddech chi'n disgrifio'r diwylliant arwain yn eich sefydliad?

- Sut gallai hyn effeithio ar eich gwaith fel Unigolyn Cyfrifol a ffiniau eich rôl?

Yng nghyd-destun gofal cymdeithasol, bydd angen i Unigolion Cyfrifol ystyried sut mae'r prif egwyddorion, gwerthoedd a safonau o ddeddfwriaeth, rheoliadau a chodau ymarfer cenedlaethol yn cael eu hymgorffori o fewn diwylliant ac ymarfer sefydliadau darparu (gweler Atodiadau A-D). Bydd hyn yn cynnwys, er enghraifft, datblygu perthynas briodol ag eraill, sut mae staff a rheolwyr yn parchu safbwyntiau a dymuniadau unigolion a gofalwyr, yn eu helpu i aros yn ddiogel, yn hyrwyddo eu hawliau, llesiant, llais a rheolaeth a gweithredu mewn ffordd agored ac atebol.

Mae'r rhain yn cyflwyno cyfleoedd a heriau gwahanol mewn gwahanol gyd-destunau gwasanaeth. Fodd bynnag, maent i gyd yn hollbwysig i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol a chymorth modern o ansawdd uchel.

Disgwylir i ddarparwyr gwasanaethau sefydlu, datblygu ac ymgorffori diwylliant sy'n sicrhau bod y canlyniadau gorau posibl yn cael eu cyflawni i unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys ymagwedd ragweithiol at gyfle cyfartal ac amrywiaeth (Rheoliad 6). Mae hyn yn golygu cymryd camau rhesymol i ddiwallu anghenion iaith unigolion, gan gynnwys darparu mynediad at gymhorthion a chyfarpar a allai fod eu hangen i helpu'r unigolyn i gyfathrebu ag eraill (e.e. Rheoliad 23).

Yn y cyd-destun hwn, mae angen i ddarparwyr gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol ystyried sut mae eu gwasanaethau'n adlewyrchu'r Gymraeg a diwylliant Cymraeg. Er enghraifft, er mwyn i unigolion ddefnyddio eu llais a rheolaeth yn effeithiol, mae angen i ddarparwyr gwasanaethau gael trefniadau priodol ar waith i alluogi pobl i gyfathrebu'n ystyrlon yn cynnwys cynnig gwasanaeth Cymraeg i unigolion Cymraeg iaith gyntaf (e.e. Rheoliad 24).

Mae *Y Gofal Cywir* yn rhoi enghraifft o un plentyn, siaradwr Cymraeg iaith gyntaf, oedd wedi cael ei symud i gartref preswyl yn Lloegr. Roedd y plentyn wedi'i atal rhag siarad Cymraeg pan fyddai perthnasau'n ymweld ag ef, oherwydd na allai'r goruchwyliwr cyswllt gadarnhau beth oedd yn cael ei ddweud a'i fod felly'n teimlo ei fod yn fater diogelu. Mae'r Comisiynydd yn nodi ei bod 'yn destun pryder clywed bod dewisiadau iaith heb gael eu hystyried yn llawn wrth wneud lleoliadau'. *Y Gofal Cywir*, Comisiynydd Plant Cymru, 2016.

Mae'r Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 2016 – 2019 yn adeiladu ar y *Mwy na Geiriau* gwreiddiol a gyhoeddwyd yn 2012. Arweiniodd y strategaeth wreiddiol at nifer o fentrau gyda'r nod o helpu i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn derbyn gwasanaethau yn eu mamiaith gan ddefnyddio sgiliau ac adnoddau cyfredol. Cyflawnwyd hyn gan ddefnyddio sgiliau ac adnoddau cyfredol. Nod y fframwaith strategol olynol yw cynnal momentwm ond hefyd cefnogi mwy o gydnabyddiaeth ymysg darparwyr gwasanaethau nad mater o ddewis yn unig yw defnyddio'r Gymraeg ond mater o angen hefyd.

'…nad oedd nifer o breswylwyr oedd yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith oherwydd prinder staff gofal oedd yn siarad Cymraeg. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn achos preswylwyr â dementia, nad ydynt mwyach yn gallu cyfathrebu mewn Saesneg wrth i'w dementia waethygu'. *Lle i'w Alw'n Gartref?* Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, 2014.

Mae'r *Cynnig Rhagweithiol* yn parhau yn elfen graidd: mae'n bwysig iawn bod staff yn cynnig gwasanaethau Cymraeg i unigolion yn hytrach na disgwyl iddynt ofyn amdanynt. Er mwyn helpu staff i wneud Cynnig Rhagweithiol, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu pecyn gwybodaeth ac mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi datblygu amrywiaeth o adnoddau i gefnogi *Gweithio yn Gymraeg*.

Diwylliant Cadarnhaol?

- Sut mae ymarfer yn y gwasanaeth yn adlewyrchu'r prif egwyddorion o hyrwyddo llesiant, ymyrraeth gynnar ac atal, llais a rheolaeth, cyd-gynhyrchu a gwaith aml-asiantaeth a chydweithio? Pa dystiolaeth sydd yna i gefnogi hyn?

- Pa mor dda mae'r gwasanaeth yn parchu gwahaniaeth ac yn hyrwyddo amrywiaeth? Pa mor dda mae'r gwasanaeth yn mynd i'r afael ag anghenion iaith unigolion?

- Sut mae'r gwasanaeth yn gweithredu prif egwyddorion *Mwy na Geiriau* a'r *Cynnig Rhagweithiol*? Sut mae'r darparwr gwasanaethau'n hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymraeg?

- Sut mae'r gwasanaeth yn helpu i sicrhau bod unigolion yn gallu arfer dewis a rheolaeth dros faterion sy'n effeithio arnynt? Pa wybodaeth a ddarperir i unigolion am wasanaethau eiriolaeth sydd ar gael, gan gynnwys hunaneiriolaeth, a'r hawl i gael gwasanaethau eiriolaeth annibynnol o dan Ddeddf 2014?

- Sut mae'r gwasanaeth yn cael ei gynllunio a'i ddarparu mewn partneriaeth ag unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u gofalwyr?

- Sut mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod unigolion yn cael cyfleoedd i gymryd rhan ym mywyd y gymuned, mewn gweithgareddau sy'n cyfateb i'w diddordebau, sgiliau a galluoedd a chynnal perthynas gadarnhaol ag eraill?

- A yw unigolion yn teimlo'n ddiogel ac wedi'u grymuso? Sut maent yn cael eu cefnogi i ddeall a rheoli risgiau? Sut mae'r gwasanaeth yn eu hybu i gymryd risgiau cadarnhaol?

- Sut mae'r gwasanaeth yn cydnabod cryfderau ac asedau unigolion ac yn adeiladu arnynt?

5.2 Gweithredu mewn ffordd agored ac atebolrwydd

Mae gan Unigolion Cyfrifol gyfrifoldebau penodol i helpu i hybu diwylliant o weithredu mewn ffordd agored ac atebol (Rheoliad 83). Yn y cyd-destun hwn, mae cyhoeddiad Gofal Cymdeithasol Cymru Gweithredu mewn ffordd agored a gonest pan fydd pethau yn mynd o le: gonestrwydd a dyletswydd broffesiynol yn adnodd ymarferol i gynorthwyo gweithwyr proffesiynol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, gan weithio ochr yn ochr ag unigolion a bodloni dyheadau Deddf 2014 a Deddf 2016.

Mae Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol yn cynnwys gofyniad bod rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol 'bod yn atebol am ansawdd [eu] gwaith … mae hyn yn cynnwys bod yn agored a gonest â phobl os yw pethau'n mynd o le, gan gynnwys rhoi esboniad llawn a phrydlon i'r awdurdod priodol am yr hyn sydd wedi digwydd'. Mae yna ddisgwyliad cyfatebol y bydd cyflogwyr yn hyrwyddo diwylliant agored, cefnogol a theg yn y gweithle gyda phwyslais ar wella a dysgu o gamgymeriadau.

Ymgorffori'r Côd Ymarfer Proffesiynol a Dyletswydd Gonestrwydd

Arweinyddiaeth:

- Sut mae uwch reolwyr eich sefydliad yn dangos eu hymrwymiad i sicrhau bod *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol* a'r *Ddyletswydd Gonestrwydd* yn cael eu hymgorffori o fewn diwylliant ac arferion y sefydliad?

- Sut mae'r *Côd Ymarfer Proffesiynol* a'r *Ddyletswydd Gonestrwydd* yn cael eu hadlewyrchu ym mholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad? Sut mae rheolwyr y gwasanaeth ac ymarferwyr yn mynegi gofynion y Côd a'r Ddyletswydd ac yn defnyddio'r rhain i bennu disgwyliadau ar gyfer y gwasanaeth?

Mynediad:

- A yw staff a rheolwyr yn gallu cael gafael ar y Côd a'r Ddyletswydd yn hawdd? A yw'r Côd a'r Ddyletswydd ar gael / wedi'u harddangos yn y gwasanaeth?

Datblygiad Staff:

- Sut mae'r Côd a'r Ddyletswydd y cael eu cynnwys mewn prosesau sefydlu a'u hadlewyrchu mewn trafodaethau goruchwylio a chyfarfodydd tîm?

- A yw staff yn gallu manteisio ar gyfleoedd datblygu perthnasol?

- A yw staff yn dweud eu bod yn teimlo'n hyderus am roi gwybod am unrhyw bryderon ac yn gwybod i bwy ddylid rhoi gwybod amdanynt?

- A ydynt yn gwybod beth allant ei wneud os ydynt yn teimlo bod yr ymateb cyntaf yn anfoddhaol?

- Oes yna rwystrau i roi gwybod am bryderon ac os felly, beth ydynt a sut y gellid eu goresgyn?

Hyrwyddo'r Côd Ymarfer Proffesiynol i Unigolion a Gofalwyr:

- Sut mae'r sefydliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Côd i unigolion a gofalwyr?

- A yw unigolion a gofalwyr wedi cael gwybod am bwysigrwydd y Côd ar gyfer pennu safonau a sicrhau atebolrwydd?

- A oes gan y sefydliad bolisïau effeithiol ar waith ar gyfer ymateb i ganmoliaeth a chwynion ac a yw unigolion a gofalwyr yn gwybod sut i'w defnyddio?

- A oes tystiolaeth bod y polisi canmoliaeth a chwynion yn cael ei ddefnyddio ac y gweithredir ar y canlyniadau'n briodol? Os na, pam?

Ymarfer:

- Sut mae'r Côd a'r Ddyletswydd yn cael eu gweithredu'n ymarferol?
- Pa dystiolaeth allwch chi ddod o hyd iddi drwy arsylwi a thrafod gydag unigolion, gofalwyr, staff, rheolwyr a chydweithwyr eraill ac o ddarllen cofnodion perthnasol?
- Pa mor dda mae'r gwasanaeth yn eirioli ar ran unigolion a sut mae'n sicrhau bod pobl yn gallu defnyddio eiriolwyr annibynnol lle bo'n briodol?

Ymateb i Gamgymeriadau a Phryderon:

- Sut mae'r gwasanaeth a'r sefydliad yn ymateb i bryderon a chamgymeriadau?
- Sut mae rheolwyr yn cefnogi staff i nodi a rhoi gwybod am bryderon a chamgymeriadau?
- A ydynt yn cael eu hymchwilio'n drylwyr, yn ddiduedd a phriodol yn unol â pholisïau'r sefydliad a'r gofynion cyfreithiol?
- A yw'r argymhellion sy'n codi o ymchwiliadau'n cael eu gweithredu a'r camau gweithredu'n cael eu monitro?

Y Camau Nesaf:

- Beth yw'r prif gryfderau a'r meysydd i'w datblygu ymhellach?
- Fel Unigolyn Cyfrifol, pa gamau ydych chi wedi'u cymryd hyd yn hyn?
- Pa gamau pellach sydd eu hangen a chan bwy?
- Sut byddwch chi'n adrodd ar ganfyddiadau'r adolygiad hwn ac i bwy?

Rhagor o wybodaeth ac Adnoddau:

Comisiynydd Plant Cymru – Whistleblowing to the Children's Commissioner for Wales

Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch – Sensible Risk Assessment in Care Settings

Sefydliad Joseph Rowntree (2012) The Right to Take Risks: Service users views of risks in adult social care.

McLean R. (2017) IRISS on … Risk

GIG Cymru (2013) Gofal Diogel, Gofal Tosturiol

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru – Codi pryderon yn y gweithle

Cyfranogaeth Cymru – Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Public Concern at Work

Public Concern at Work – Astudiaethau Achos

Sgiliau Gofal a Datblygu – Leadership and Management in Care Services National Occupational Standards

Sefydliad Rhagoriaeth Gofal Cymdeithasol (2017) Person-centred Care for Older People in Care Homes

Sefydliad Rhagoriaeth Gofal Cymdeithasol Organisational Change in Social Care

Sefydliad Rhagoriaeth Gofal Cymdeithasol - Whistleblowing: improving organisational practice

Gofal Cymdeithasol Cymru – Adnoddau Arweinyddiaeth a Rheolaeth yn cynnwys Gweithdai Datblygu'r Sefydliad i Reolwyr: Newid Meddylfryd a Mesur Cynnydd.

Gofal Cymdeithasol Cymru (2016) Ffiniau Proffesiynol: Adnodd i reolwyr

Gofal Cymdeithasol Cymru (2017) Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol

Gofal Cymdeithasol Cymru (2017) Gweithredu mewn ffordd agored a gonest pan fydd pethau yn mynd o le: gonestrwydd a dyletswydd broffesiynol

Gofal Cymdeithasol Cymru (2018) Côd Ymarfer Cyflogwyr (pan fydd ar gael)

Skills for Care – Culture for Care: Your Toolkit

Think Local, Act Personal - A Positive Approach to Risk and Personalisation: a Framework

Llywodraeth Cymru Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl Ifanc

Llywodraeth Cymru (2016) Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 2016 – 2019

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru Offer i'ch Helpu

Cynllun Datblygu Amlinellol

Cyd-destun Sefydliadol

1. **Pa faterion allweddol y mae'r gofynion yn Rhannau 3 i 15 y rheoliadau yn eu cyflwyno i'r darparwr gwasanaethau?**

2. **Pa faterion allweddol y mae'r gofynion yn Rhannau 16 i 20 y rheoliadau yn eu cyflwyno i'r darparwr gwasanaethau?**

3. **Pa gamau gweithredu allweddol sydd angen i'r darparwr gwasanaethau eu cymryd ac erbyn pryd?**

Datblygiad Personol

4. **Beth yw fy nghryfderau cyfredol ar gyfer cyflawni rôl Unigolyn Cyfrifol?**

5. **Beth yw'r heriau posibl y bydd rhaid i mi eu hwynebu wrth ddatblygu rôl Unigolyn Cyfrifol?**

6. **Beth yw fy mhrif feysydd ar gyfer dysgu a datblygu ymhellach a beth yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r rhain?**

7. **Pa adnoddau dysgu sydd eu hangen arnaf a sut galla i gael gafael arnyn nhw?**

8. **Pa gyfleoedd rhwydweithio posibl sydd ar gael a beth yw'r ffordd orau o fanteisio arnyn nhw?**

9. **Pa gymorth ydw i ei angen gan y darparwr gwasanaethau?**

Atodiad A. Amlinelliad o'r Gofynion ar Ddarparwyr Gwasanaethau (Rhannau 3 i 15 o'r Rheoliadau)

Mae cyfrifoldebau darparwyr gwasanaethau wedi'u nodi yn y rheoliadau. Mae'r *Canllawiau Statudol ar gyfer Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol am Gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Gwasanaeth* yn egluro sut y gall darparwyr gydymffurfio â'r rheoliadau hynny. Mae'n **rhaid** darllen yr amlinelliad canlynol ar y cyd â'r rheoliadau a'r canllawiau statudol hynny

1.1 Y gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau (Rhan 3, Rheoliadau 6 - 13)

Bwriad y gofynion cyffredinol yn Rhan 3 o'r Rheoliadau yw sicrhau bod darparwyr gwasanaethau'n rhoi trefniadau llywodraethu ar waith i helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'n hwylus ac i sicrhau bod sylfaen gadarn ar gyfer darparu gofal a chymorth o ansawdd da i unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac i roi cymorth iddynt gyflawni eu canlyniadau personol. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Gosod bwriad a chyfeiriad trefniadol clir drwy restru'r gwasanaethau a ddarperir a'r camau y bydd y darparwr gwasanaethau'n ymgymryd â hwy i gyflawni hyn yn y datganiad diben.

- Rhoi ar waith y polisïau a'r gweithdrefnau gwaelodol i helpu rheolwyr a staff i gyflawni nodau'r gwasanaeth a chanlyniadau personol unigolion.

- Sefydlu strwythurau rheoli cadarn i oruchwylio a monitro'r gwasanaeth er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol i'r unigolion sy'n cael gofal a chymorth.

- Sefydlu trefniadau clir ar gyfer cylch parhaus o sicrhau ac adolygu ansawdd er mwyn rhoi sicrwydd bod y gwasanaeth yn gweithredu'n unol â gofynion cyfreithiol, ei ddatganiad o ddiben a'i fod yn helpu unigolion yn briodol i gyflawni eu canlyniadau personol. Bod y wybodaeth a geir drwy fonitro'n cael ei defnyddio ar gyfer datblygu a gwella'r gwasanaeth yn barhaus.

- Parhau i oruchwylio'r trefniadau ariannol a'r buddsoddi yn y busnes fel bod yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael cymorth i gyflawni eu canlyniadau personol a'u bod yn cael eu gwarchod rhag y perygl o ddileu neu newid gwasanaethau a ddarperir heb i hynny gael ei gynllunio, yn sgil pwysau ariannol.

- Hyrwyddo diwylliant o fod yn agored, yn ddidwyll ac yn onest ar bob lefel.

Rheoliadau Perthnasol

Rheoliad 6 Gofynion mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth

Rheoliad 7 Gofynion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben

Rheoliad 8 Gofynion mewn perthynas â monitro a gwella

Rheoliad 9 Gofynion mewn perthynas â'r unigolyn cyfrifol

Rheoliad 10 Gofynion mewn perthynas â'r unigolyn cyfrifol pan fo'r darparwr gwasanaethau yn unigolyn

Rheoliad 11 Gofynion mewn perthynas â chynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth

Rheoliad 12 Gofynion i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau

Rheoliad 13 Dyletswydd gonestrwydd

1.2 Y gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y camau y mae'n rhaid eu cymryd cyn cytuno i ddarparu gofal a chymorth (Rhan 4, Rheoliad 14)

Bwriad gofynion Rhan 4 o'r Rheoliadau yw rhoi sicrwydd i unigolion bod darparwr gwasanaethau wedi ystyried ystod eang o wybodaeth cyn cynnig gofal a chymorth i gadarnhau bod y gwasanaeth yn gallu bodloni anghenion yr unigolyn ac yn gallu rhoi cymorth iddo gyflawni ei ganlyniadau personol. Mae hyn yn cynnwys dymuniadau'r unigolyn a'r hyn sydd orau ganddo, ac ymgynghori â'r bobl a'r gweithwyr proffesiynol perthnasol.

Rheoliadau Perthnasol

Rheoliad 14 Addasrwydd y gwasanaeth.

1.3 Y gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y camau y mae'n rhaid eu cymryd wrth gychwyn darparu gofal a chymorth (Rhan 5, Rheoliadau 15 - 18)

Bwriad Rhan 5 o'r Rheoliadau yw sicrhau bod modd i unigolion deimlo'n hyderus bod gan ddarparwyr gwasanaethau gynllun cywir wedi'i ddiweddaru (a elwir yn gynllun personol) sy'n dweud sut darperir y gofal.

Bydd y darparwr yn datblygu cynllun personol cychwynnol cyn i'r gwasanaeth ddechrau gan ddefnyddio gwybodaeth sydd ar gael eisoes, asesiadau ac unrhyw gynlluniau gofal a chymorth sydd ar waith. Wedyn, datblygir y cynllun personol eto yn ystod wythnos gyntaf defnyddio'r gwasanaeth drwy gynnal asesiad llawn gan y darparwr (asesiad darparwr) gyda'r unigolyn a'i gynrychiolydd. Bydd asesiad y darparwr yn ystyried dymuniadau personol, dyheadau ac anghenion gofal a chymorth yr unigolyn. Defnyddir y wybodaeth a geir yn sgil hyn i ddatblygu rhagor ar y cynllun personol. Bydd y cynllun personol:

- yn darparu gwybodaeth ar gyfer unigolion a'u cynrychiolwyr ynglŷn â'r gofal a'r cymorth y cytunwyd arno a sut darperir hyn
- yn darparu arweiniad clir ac adeiladol i'r staff am yr unigolyn, ei anghenion gofal a chymorth a'r canlyniadau y byddai'n hoffi eu cyflawni
- yn darparu'r sail ar gyfer adolygu parhaus

- yn galluogi unigolion, eu cynrychiolwyr a'r staff i fesur cynnydd a gweld a yw'r canlyniadau personol yn cael eu cyflawni.

Rheoliadau Perthnasol

Rheoliad 15 Cynllun personol

Rheoliad 16 Adolygu cynllun personol

Rheoliad 17 Cofnodion o gynlluniau personol

Rheoliad 18 Asesiad darparwr

1.4 Y gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y wybodaeth y mae'n rhaid ei rhoi i unigolion wrth gychwyn darparu gofal a chymorth (Rhan 6, Rheoliadau 19 - 20)

Bwriad Rhan 6 o'r Rheoliadau yw sicrhau bod unigolion yn cael gwybodaeth am y gwasanaeth i'w galluogi:

- i ddeall diwylliant ac ethos y gwasanaeth yn glir
- i wybod pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael
- sut darperir gwasanaethau
- thelerau ac amodau'r gwasanaeth.

Dylai hyn alluogi unigolion, yr awdurdodau sy'n eu lleoli, ac unrhyw gynrychiolwyr i ddeall yn dda sut mae'r gwasanaeth yn gweithio o ran darparu gofal a chymorth. Bydd y canllawiau'n rhoi'r wybodaeth i unigolion, yr awdurdodau sy'n lleoli ac unrhyw gynrychiolwyr sydd ei hangen arnynt ynglŷn â sut i leisio pryderon a chwyno wrth ddarparwyr gwasanaethau os na fyddant yn fodlon â'r gwasanaeth ac maent yn dweud sut mae uwchgyfeirio'r pryderon hyn os na fyddant yn fodlon â'r ymateb.

Rheoliadau Perthnasol

Rheoliad 19 Gwybodaeth am y gwasanaeth

Rheoliad 20 Cytundeb gwasanaeth.

1.5 Y gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran safon y gofal a'r cymorth a ddarperir (Rhan 7, Rheoliadau 21 - 25)

Bwriad Rhan 7 o'r Rheoliadau yw sicrhau bod unigolion yn cael y gofal a'r cymorth sy'n eu galluogi i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl. Bydd y gwasanaeth yn cael ei gynllunio drwy ymgynghori â'r unigolyn a bydd yn ystyried ei ddymuniadau personol, ei ddyheadau a'i ganlyniadau ac unrhyw beryglon ac anghenion arbenigol sy'n llywio'r gofal a'r cymorth. Bydd hyn yn cynnwys:

- darparu gofal a chymorth sy'n cyflawni canlyniadau personol unigolion
- darparu staff sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r medrusrwydd i ddiwallu anghenion llesiant unigolion
- sicrhau bod gan staff y sgiliau iaith a chyfathrebu priodol
- cynllunio a rhoi staff ar waith i sicrhau dilyniant yn y gofal
- ymgynghori â'r asiantaethau a'r arbenigwyr perthnasol lle bydd gofyn a cheisio cymorth ganddynt.

Rheoliadau Perthnasol

Rheoliad 21 Safonau gofal a chymorth – gofynion cyffredinol

Rheoliad 22 Parhad gofal

Rheoliad 23 Gwybodaeth

Rheoliad 24 Iaith a chyfathrebu

Rheoliad 25 Parch a sensitifrwydd

1.6 Y gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau – diogelu (Rhan 8, Rheoliadau 26 - 32)

Bwriad Rhan 8 o'r Rheoliadau yw sicrhau bod gan ddarparwr gwasanaethau y mecanweithiau ar waith i ddiogelu unigolion agored i niwed y maent yn darparu gofal a chymorth ar eu cyfer. Bydd hyn yn cynnwys trefniadau sydd:

- yn rhoi cymorth i unigolion agored i niwed sy'n defnyddio'r gwasanaeth
- yn cefnogi ac yn sylfaen i wybodaeth y staff, eu dealltwriaeth a'u sgiliau o ran sylwi ar y peryglon a'r camau i'w cymryd pan amheuir bod cam-drin, esgeulustod neu driniaeth amhriodol
- yn cydweithio â phartneriaid i atal a chymryd camau pan amheuir bod cam-drin, esgeulustod neu driniaeth amhriodol.

Rheoliadau Perthnasol

Rheoliad 26 Diogelu – gofyniad cyffredinol

Rheoliad 27 Polisïau a gweithdrefnau diogelu

Rheoliad 28 Cefnogi unigolion i reoli eu harian

Rheoliad 29 Y defnydd priodol o reolaeth ac ataliaeth

Rheoliad 30 Gwaharddiad ar y defnydd o gosb gorfforol

Rheoliad 31 Amddifadu o ryddid

Rheoliad 32 Dehongli Rhan 8

1.7 Y gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau nad ydynt ond yn berthnasol pan ddarperir llety (Rhan 9, Rheoliad 33)

Bwriad Rhan 9 o'r Rheoliadau yw sicrhau, lle mae llety yn cael ei ddarparu, fod unigolion yn cael cymorth i gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau eraill i gynnal eu hiechyd, eu datblygiad a'u lles yn barhaus.

Rheoliadau Perthnasol

Rheoliad 33 Cael gafael ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill

1.8 Y gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau gyda golwg ar staffio (Rhan 10, Rheoliadau 34 - 39)

Bwriad Rhan 10 o'r Rheoliadau yw sicrhau bod unigolion yn cael cymorth gan nifer briodol o staff sydd â'r wybodaeth, y cymhwysedd, y sgiliau a'r cymwysterau i ddarparu'r lefelau gofal a chymorth sy'n ofynnol er mwyn cyflawni canlyniadau personol yr unigolyn. Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau y canlynol ar waith:

- polisïau a gweithdrefnau sylfaenol ar gyfer recriwtio
- arferion trwyadl ar gyfer recriwtio ac archwilio cefndir staff
- strwythur rheoli a staffio sy'n ategu'r datganiad o ddiben ac sy'n berthnasol i anghenion unigolion
- strwythur rheoli, systemau a phrosesau ar gyfer sefydlu staff, eu goruchwylio'n barhaus, eu hyfforddi a'u datblygu.

Rheoliadau Perthnasol

Rheoliad 34 Staffio – gofynion cyffredinol

Rheoliad 35 Addasrwydd staff

Rheoliad 36 Cefnogi a datblygu staff

Rheoliad 37 Cydymffurfio â chod ymarfer y cyflogwr

Rheoliad 38 Gwybodaeth ar gyfer staff

Rheoliad 39 Gweithdrefnau disgyblu

1.9 Y gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran gwasanaethau cymorth cartref (Rhan 11, Rheoliadau 40 - 42)

Bwriad Rhan 11 y Rheoliadau yw nodi'r gofynion ar gyfer gwasanaeth cymorth cartref y mae'r darparwr wedi ei gofrestru i'w ddarparu. Bydd hyn yn cynnwys:

- "amserlen ymweliadau" sy'n amlinellu'r amser a ganiateir ar gyfer pob ymweliad a'r amser a ganiateir ar gyfer teithio rhwng pob ymweliad
- cynnig y dewis o drefniadau contractiol eraill i weithwyr gofal cartref sydd ar gontractau oriau heb eu gwarantu.

Rheoliadau Perthnasol

Rheoliad 40 Cymhwyso rheoliadau yn y Rhan hon

Rheoliad 41 Amlinellu amser teithio ac amser gofal

Rheoliad 42 Cynnig y dewis o drefniadau contractiol eraill i weithwyr gofal cartref sydd ar gontractau oriau heb eu gwarantu

1.10 Y gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau gyda golwg ar eiddo, cyfleusterau ac offer (Rhan 12, Rheoliadau 43 - 48)

Bwriad Rhan 12 o'r Rheoliadau yw rhestru'r hyn sy'n ofynnol gan ddarparwyr gwasanaethau er mwyn sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu ar gyfer unigolion mewn lleoliad ac amgylchedd â chyfleusterau a, lle y bo hynny'n berthnasol, offer sy'n hyrwyddo cyflawni eu canlyniadau personol. Mae gofynion Rhan 12 yn gymwys i bob darparwr gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau llety diogel neu wasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd. Bydd hyn yn cynnwys:

- sicrhau bod systemau a phrosesau ar waith sy'n hybu amgylchedd diogel o safon uchel lle darperir y gwasanaethau
- sicrhau bod yr amgylchedd ffisegol yn darparu lle i unigolion a mannau cymunedol ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth
- cyfleusterau ac offer sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac sy'n briodol ar gyfer yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Rheoliadau Perthnasol

Rheoliad 43 Gofyniad cyffredinol

Rheoliad 44 Mangreoedd – gwasanaethau llety yn unig

Rheoliad 45 Ystafelloedd meddiannaeth sengl ac ystafelloedd a rennir – oedolion

Rheoliad 46 Ystafelloedd meddiannaeth sengl ac ystafelloedd a rennir – plant

Rheoliad 47 Mangreoedd – pob gwasanaeth

Rheoliad 48 Cyfleusterau a chyfarpar

1.11 Gofynion ychwanegol ar ddarparwyr gwasanaethau gyda golwg ar eiddo – llety newydd (Rhan 13, Rheoliadau 49 - 54)

Bwriad Rhan 13 o'r Rheoliadau yw datblygu gwasanaethau sy'n seiliedig ar lety i ddarparu amgylcheddau o safon gyson uchel i unigolion sy'n cael gofal a chymorth. Bwriad hyn yw rhoi dewis a chymorth i unigolion i gadw eu hurddas, eu hannibyniaeth a'u preifatrwydd. Mae gofynion Rhan 13 yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau llety diogel neu wasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd.

Rheoliadau Perthnasol

Rheoliad 49 Cymhwyso Rhan 13

Rheoliad 50 Gofynion ychwanegol – ystafelloedd ymolchi en-suite

Rheoliad 51 Gofynion ychwanegol – maint ystafelloedd

Rheoliad 52 Gofynion ychwanegol – lle cymunedol

Rheoliad 53 Gofynion ychwanegol – lle yn yr awyr agored

Rheoliad 54 Gofynion ychwanegol – lifft i deithwyr

1.12 Y gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau gyda golwg ar gyflenwadau, hylendid, iechyd a diogelwch a meddyginiaethau (Rhan 14, Rheoliadau 55 – 58)

Bwriad Rhan 14 o'r Rheoliadau yw sicrhau bod unigolion yn cael cymorth gan wasanaeth sydd:

- â digon o gyflenwadau ar gyfer eu hanghenion gofal a chymorth
- â systemau diogel ar gyfer rheoli meddyginiaethau
- yn nodi ac yn lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch
- yn hybu arferion hylan ac yn rheoli risg haint.

Rheoliadau Perthnasol

Rheoliad 55 Cyflenwadau

Rheoliad 56 Hylendid a rheoli heintiau

Rheoliad 57 Iechyd a diogelwch

Rheoliad 58 Meddyginiaethau

1.13 Y gofynion eraill ar ddarparwyr gwasanaethau (Rhan 15, Rheoliadau 59 - 65)

Bwriad Rhan 15 o'r Rheoliadau yw sicrhau bod unigolion yn cael eu gwarchod gan wasanaeth sy'n gweithio'n rhagweithiol i sicrhau eu bod yn cael gofal a chymorth ac i warchod eu hawliau drwy:

- gadw cofnodion cywir sydd ar gael iddynt hwy a'u cynrychiolwyr
- cyfathrebu â'r cyrff rheoleiddio perthnasol ac asiantaethau statudol lle bydd pryderon a digwyddiadau arwyddocaol yn effeithio ar unigolion
- sicrhau gwasanaeth agored a thryloyw drwy hybu polisi a gweithdrefn gwyno hawdd i bobl eu defnyddio
- cefnogi staff i leisio pryderon am y gwasanaeth drwy weithdrefnau chwythu'r chwiban
- dangos eu bod yn dysgu yn sgil pryderon a chwynion er mwyn gwella'r gwasanaeth.

Rheoliadau Perthnasol

Rheoliad 59 Cofnodion

Rheoliad 60 Hysbysiadau

Rheoliad 61 Hysbysu mewn cysylltiad â phlant sy'n cael eu derbyn i fan, neu eu rhyddhau o fan, y darperir llety i blant ynddo

Rheoliad 62 Hysbysu mewn cysylltiad â marwolaeth plentyn sy'n cael ei letya mewn cartref diogel i blant

Rheoliad 63 Gwrthdaro buddiannau (gan gynnwys gwaharddiadau)

Rheoliad 64 Polisi a gweithdrefn gwyno

Rheoliad 65 Chwythu'r chwiban

Mae rhagor o wybodaeth ac adnoddau dysgu am rôl darparwyr gwasanaethau yn cynnwys y rheoliadau a'r canllawiau cysylltiedig ar gael ar yr Hyb Gwybodaeth a Dysgu.

Atodiad B. Amlinelliad o'r Gofynion ar Unigolion Cyfrifol (Rhannau 16 i 20 o'r Rheoliadau)

Bwriad Rhannau 16 i 20 o'r Rheoliadau yw sicrhau bod unigolyn dynodedig ar lefel uwch briodol yn atebol am ansawdd y gwasanaeth a hefyd am gydymffurfio. Bydd y Rheoliadau'n gosod gofynion penodol ar yr Unigolyn Cyfrifol a bydd yn galluogi rheoleiddiwr y gwasanaeth i gymryd camau yn erbyn y darparwr gwasanaethau ond hefyd yn erbyn yr unigolyn cyfrifol oni chydymffurfir â'r gofynion rheoliadol. Mae'r rheoliadau yn y Rhannau hyn wedi eu gwneud o dan adran 28 o'r Ddeddf.

Bydd yr unigolyn cyfrifol yn gyfrifol am **oruchwylio**'r gwaith o reoli'r gwasanaeth ac am roi sicrwydd bod y gwasanaeth yn ddiogel, yn cael ei redeg yn dda ac yn cydymffurfio â'r

rheoliadau. Bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn gyfrifol am sicrhau bod gan y gwasanaeth reolwr, a digon o adnoddau a chefnogaeth. Nid yr Unigolyn Cyfrifol fydd yn gyfrifol am reolaeth y gwasanaeth o ddydd i ddydd (oni bai ei fod yn rheolwr hefyd); y rheolwr fydd yn gyfrifol am hyn.

2.1 Y gofynion ar Unigolion Cyfrifol am sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol (Rhan 16, Rheoliadau 66 - 73)

Rheoliadau Perthnasol

Rheoliad 66 Goruchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaeth

Rheoliad 67 Dyletswydd i benodi rheolwr

Rheoliad 68 Gofynion o ran addasrwydd ar gyfer penodi rheolwr

Rheoliad 69 Cyfyngiadau ar benodi rheolwr ar gyfer mwy nag un gwasanaeth

Rheoliad 70 Dyletswydd i adrodd am benodi rheolwr i'r darparwr gwasanaethau

Rheoliad 71 Dyletswydd i adrodd am benodi rheolwr i reoleiddiwr y gweithlu a'r rheoleiddiwr gwasanaethau

Rheoliad 72 Y trefniadau pan fydd rheolwr yn absennol

Rheoliad 73 Ymweliadau

2.2 Y gofynion ar Unigolion Cyfrifol am sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol (Rhan 17, Rheoliadau 74 - 76)

Rheoliadau Perthnasol

Rheoliad 74 Goruchwylio digonolrwydd adnoddau

Rheoliad 75 Adroddiadau eraill i'r darparwr gwasanaeth

Rheoliad 76 Ymgysylltu ag unigolion ac eraill

2.3 Y gofynion ar Unigolion Cyfrifol am sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio (Rhan 18, Rheoliadau 77 - 79)

Rheoliadau Perthnasol

Rheoliad 77 Dyletswydd i sicrhau bod systemau yn eu lle i gofnodi digwyddiadau a chwynion

Rheoliad 78 Dyletswydd i sicrhau bod systemau yn eu lle ar gyfer cadw cofnodion

Rheoliad 79 Dyletswydd i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn gyfredol

2.4 Y gofynion ar Unigolion Cyfrifol gyda golwg ar fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei reoleiddio (Rhan 19, Rheoliadau 80 - 81)

Rheoliadau Perthnasol

Rheoliad 80 Adolygiad o ansawdd y gofal

Rheoliad 81 Datganiad o gydymffurfiaeth â'r gofynion o ran safonau gofal a chymorth

2.5 Gofynion eraill ar Unigolion Cyfrifol (Rhan 20, Rheoliadau 82 - 84)

Rheoliadau Perthnasol

Rheoliad 82 Cymorth ar gyfer staff sy'n codi pryderon

Rheoliad 83 Dyletswydd gonestrwydd

Rheoliad 84 Hysbysiadau

Mae rhagor o wybodaeth ac adnoddau dysgu am rôl Unigolion Cyfrifol yn cynnwys y rheoliadau a'r canllawiau cysylltiedig ar gael ar yr Hyb Gwybodaeth a Dysgu.

Atodiad C. Codau Ymarfer a Chanllawiau Ymarfer

Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol

Mae'r Côd Ymarfer Proffesiynol yn nodi'r safonau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol sy'n ofynnol ymhlith pobl a gyflogir yn y proffesiwn gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r Côd yn chwarae rhan allweddol mewn codi ymwybyddiaeth o'r safonau ymddygiad ac ymarfer a ddisgwylir ymhlith y proffesiwn. Mae'n datgan bod rhaid i weithwyr Gofal Cymdeithasol wneud y canlynol:

Adran 1 Parchu safbwyntiau a dymuniadau, a hyrwyddo hawliau a buddiannau, unigolion a gofalwyr.

Adran 2 Ymdrechu i sefydlu a chynnal ymddiriedaeth a hyder unigolion a gofalwyr.

Adran 3 Hyrwyddo llesiant, llais a rheolaeth unigolion a gofalwyr gan eu cefnogi i'w cadw eu hunain yn ddiogel.

Adran 4 Parchu hawliau unigolion gan geisio sicrhau nad yw eu hymddygiad yn niweidio'u hunain na phobl eraill.

Adran 5 Gweithredu'n ddidwyll a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn gofal cymdeithasol.

Adran 6 Bod yn atebol am ansawdd eich gwaith a chymryd cyfrifoldeb dros gynnal a datblygu gwybodaeth a sgiliau.

Adran 7 Yn ogystal ag adrannau 1 - 6, os ydych yn gyfrifol am reoli neu arwain staff, mae'n rhaid i chi sicrhau bod y Côd yn rhan annatod o'u gwaith.

Côd Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr Gofal Cymdeithasol

Rhaid i bobl sy'n cyflogi gweithwyr gofal cymdeithasol mewn gwasanaethau a reoleiddir o dan Ran 1 o'r Ddeddf gadw at y safonau a nodir yn eu Côd Ymarfer, cynorthwyo'r gweithlu gofal cymdeithasol i gyflawni'r Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol a chymryd camau priodol pan nad yw ymddygiad staff yn cyrraedd y safonau disgwyliedig. Mae'r safonau ar gyfer cyflogwyr wedi'u rhannu'n bum adran:

Adran 1 Sicrhau bod y rheini sydd am ymuno â'r gweithlu gofal cymdeithasol yn addas a'u bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Adran 2 Bod â pholisïau, systemau ac arferion ar waith i alluogi gweithwyr gofal cymdeithasol i gydymffurfiio â'u Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol.

Adran 3 Darparu a chefnogi cyfleoedd dysgu a datblygu i alluogi gweithwyr gofal cymdeithasol i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau.

Adran 4 Bod â pholisïau a systemau ar waith i amddiffyn pobl rhag sefyllfaoedd, ymddygiad ac arferion niweidiol neu beryglus.

Adran 5 Hyrwyddo Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol a chydweithredu ag achosion Gofal Cymdeithasol Cymru.

Canllawiau Ymarfer ar gyfer Rheolwyr Gofal Cymdeithasol sydd wedi Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae'r Canllaw Ymarfer hwn yn nodi'r safonau y mae disgwyl i reolwyr gofal cymdeithasol sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru eu cyrraedd. Mae'n berthnasol hefyd i'r rheini sy'n gweithio mewn swyddi dirprwy neu swyddi rheolwyr cynorthwyol. Gall darpar reolwyr ddefnyddio'r canllaw i weld pa waith y byddai gofyn iddynt ei gyflawni. Mae'n berthnasol hefyd i gyflogwyr a gall Unigolion Cyfrifol ei ddefnyddio i asesu a oes trefniadau priodol ar waith er mwyn sicrhau ymarfer diogel a phroffesiynol sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Gellir ei ddefnyddio i roi gwybod i unigolion, perthnasau, gofalwyr a'r cyhoedd beth y gallant ei ddisgwyl gan reolwyr gofal cymdeithasol.

Mae'r canllaw'n egluro, i'r rhai sy'n arwain ac yn rheoli gwasanaethau gofal cymdeithasol, mai'r prif ddiben yw arwain a rheoli gwasanaeth ardderchog, integredig, moesegol a chynhwysol sy'n diwallu anghenion unigolion, yn diogelu ac yn hyrwyddo llesiant a datblygiad pobl.

Er enghraifft, mae rheolwyr gofal cymdeithasol yn gyfrifol am sicrhau bod eu hymarfer yn canolbwyntio ar ddinasyddion ac am arwain a hyrwyddo'r ffordd hon o weithio gyda'r staff maent yn eu rheoli. Mae **gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar y dinesydd** yn golygu sicrhau bod gan unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol lais cryf a dylanwad dros eu gwasanaethau a materion sy'n effeithio arnynt. Mae'n cynnwys trin pobl ag urddas a pharch bob amser a hybu annibyniaeth, hawliau a dewisiadau (Paragraffau 3-10).

Mae arwain a rheoli ymarfer sy'n **hyrwyddo diogelwch unigolion** yn sail i waith rheolwyr gofal cymdeithasol. Mae'n cynnwys deall y gwaith o ddiogelu a'r camau y mae'n rhaid eu cymryd mewn achosion o niwed neu gam-drin gwirioneddol neu bosibl. Mae'n cynnwys cefnogi perthnasau sy'n hyrwyddo'r gwaith o ddiogelu, ac arwain gydag arferion sy'n cefnogi hawliau, cynhwysiant a llesiant unigolion a dulliau sy'n eu cadw'n ddiogel (Paragraffau 11 – 16).

Mae arwain a rheoli ymarfer ar gyfer **iechyd, diogelwch a diogeledd** yn cynnwys pwyslais ar asesu ac atal yn ogystal â monitro cydymffurfiaeth â gofynion. Mae hefyd yn cynnwys datblygu systemau i reoli risg gan hyrwyddo diwylliant o gymryd risgiau cadarnhaol sy'n cymell ymarfer blaengar sy'n seiliedig ar dystiolaeth (Paragraffau 17 - 23).

Mae **cyfathrebu da** yn sail i ddarpariaeth gofal cymdeithasol effeithiol. Mae'n cynnwys sgiliau cyfathrebu sylfaenol sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion, addasu dulliau cyfathrebu i weddu i'r sefyllfa a gwneud trefniadau ymarferol i gynorthwyo gyda'r gwaith o gyfathrebu. Mae cyfathrebu da yn hanfodol wrth weithio gydag unigolion, eu perthnasau a'u gofalwyr a hefyd gyda staff a chydweithwyr eraill. Mae'n cynnwys cyfathrebu ar lafar, cofnodi, adrodd ar wahanol faterion ac arferion rhannu gwybodaeth (Paragraffau 24 – 29).

Mae **dysgu a datblygu gwybodaeth a sgiliau yn barhaus** yn hanfodol i wella ymarfer a chanlyniadau ar gyfer dinasyddion. Mae rheolwyr gofal cymdeithasol yn gyfrifol am fynd ati'n ddiwyd i geisio cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu a datblygu proffesiynol parhaus sy'n gysylltiedig ag amcanion sefydliadol ac unigol er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu a gwella gwasanaethau (Paragraffau 30 – 33).

Mae rheolwyr gofal cymdeithasol yn atebol am **reoli, arwain a chynorthwyo staff eu timau o ddydd i ddydd**, gan hyrwyddo ymddygiad da ac arferion gorau, hwyluso mynediad at ddysgu, rhoi adborth a mynd i'r afael â phryderon. Mae hyn yn cynnwys: hyrwyddo diwylliant cadarnhaol yn y gweithle; recriwtio a sefydlu staff, dysgu a datblygu staff yn barhaus; monitro ymarfer; goruchwylio ac arfarnu; dirprwyo tasgau i eraill; cydymffurfio â gofynion proffesiynol a rheoleiddio; a mynd i'r afael â pherfformiad anfoddhaol a chamymddwyn (Paragraffau 34 – 43).

Mae rheolwyr yn gwneud amrywiaeth o dasgau neu'n cyfrannu atynt er mwyn sicrhau bod y **gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n effeithiol a diogel**. Gallai'r rhain gynnwys, er enghraifft, cynllunio strategol a busnes, datblygu gwasanaethau ac arloesedd, marchnata, datblygu polisïau, rheoli cyllidebau ac adnoddau, llywodraethu, rheoli prosiectau, adolygiadau blynyddol, tasgau rheoli caffael a pherfformiad. Rydych yn atebol am gynnal safonau proffesiynol ac ansawdd y gwaith yn y meysydd hyn (Paragraffau 44 – 47).

Mae **uniondeb** yn golygu bod yn onest, yn ddibynadwy ac yn ddidwyll. Mae'n golygu bod rhaid i reolwyr gofal cymdeithasol ymddwyn, bob amser, mewn ffordd sy'n cyfiawnhau'r ffaith bod plant a phobl ifanc, teuluoedd a'r cyhoedd yn ymddiried ynddynt (Paragraffau 48 – 54).

Gwybodaeth bellach ac adnoddau dysgu

Gofal Cymdeithasol Cymru (2017) Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol

Gofal Cymdeithasol Cymru (2018) Côd Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr Gofal Cymdeithasol (pan fydd ar gael)

Gofal Cymdeithasol Cymru (2017) Y Rheolwr Gofal Cymdeithasol: Canllawiau Ymarfer ar gyfer Rheolwyr Gofal Cymdeithasol sydd wedi Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru

Atodiad D. Y Prif Egwyddorion sy'n sail i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Egwyddorion sy'n sail i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014	
Egwyddor	**Beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol**
Llesiant	cynorthwyo pobl i sicrhau llesiant ym mhob rhan o'u bywydau.
Atal ac ymyrryd yn gynnar	gallu cael gafael ar gyngor a chymorth yn gynnar i gynnal ansawdd bywyd da, a lleihau neu oedi'r angen am ofal a chymorth hirdymor.
Llais a Rheolaeth	rhoi unigolyn a'i anghenion wrth wraidd ei ofal a'i gymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddo dros y canlyniadau a fydd yn ei helpu i sicrhau llesiant.
Cyd-gynhyrchu	cynnwys pobl yn y gwaith o gynllunio a darparu cymorth a gwasanaethau, a chydnabod y wybodaeth a'r arbenigedd y maent yn eu darparu.
Gwaith aml-asiantaeth a chydweithio	mae gwaith partneriaeth cryf rhwng pob asiantaeth a sefydliad yn hanfodol er mwyn gwella llesiant unigolion sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth.

Geirfa

Term	Ystyr
Deddf 2016	Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.
Deddf 2014	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
Cynllun Gofal a Chymorth	Cynllun a gyflwynir gan yr awdurdod lleol o dan adran 54 (mewn perthynas â phlant, oedolion neu ofalwr) neu adran 83 (mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal ac sy'n cael eu lletya) o Ddeddf 2014.
Canlyniadau Personol	• o ran oedolyn, mae hyn yn golygu'r canlyniadau y mae'r oedolyn yn dymuno eu cyflawni yn ei fywyd bob dydd • o ran plentyn, mae hyn yn golygu – i. y canlyniadau y mae'r plentyn yn dymuno eu cyflawni, neu ii. y canlyniadau y mae unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhiant yn dymuno eu cyflawni mewn perthynas â'r plentyn
Cynllun Personol	Y cynllun sy'n rhaid ei baratoi yn unol â Rheoliad 15 (Deddf 2016).
Asesiad Darparwr	Yr asesiad y mae'n rhaid i'r darparwr gwasanaethau ei gwblhau yn unol â Rheoliad 18 (Deddf 2016).
Cynrychiolydd	Unrhyw un sydd ag awdurdod cyfreithiol neu ganiatâd yr unigolyn i weithredu ar ran yr unigolyn.
Rheolwr	Yn yr adnodd hwn, mae'r term 'rheolwr' yn cyfeirio at y sawl sydd wedi'i benodi i reoli gwasanaeth rheoleiddiedig yn unol â'r gofynion a nodir yn Rheoliadau 67 i 71 o'r Canllawiau Statudol ar gyfer Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol am Gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Gwasanaeth.

Unigolyn Cyfrifol	**Naill ai**:
	• pan fo'r darparwr gwasanaeth yn unigolyn rhaid iddo fod y darparwr gwasanaeth
	• pan fo'r darparwr gwasanaeth yn bartneriaeth, rhaid iddo fod yn un o'r partneriaid
	• pan fo'r darparwr gwasanaeth yn gorff corfforaethol, ac eithrio awdurdod lleol:
	  • cyfarwyddwr neu swyddog tebyg yn y corff;
	  • yn achos cwmni cyfyngedig cyhoeddus, cyfarwyddwr neu ysgrifennydd y cwmni;
	  • yn achos corff corfforaethol y mae ei faterion yn cael eu rheoli gan ei aelodau, aelod o'r corff;
	• pan fo'r darparwr gwasanaeth yn gorff anghorfforedig, aelod o'r corff;

	• pan fo'r darparwr gwasanaeth yn awdurdod lleol, swyddog yr awdurdod lleol sydd wedi'i ddynodi gan gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod; **ac** y mae AGC yn fodlon ei fod yn unigolyn addas a phriodol i fod yn Unigolyn Cyfrifol; **ac** wedi'i ddynodi gan ddarparwr gwasanaethau mewn perthynas â lleoliad lle mae'r darparwr yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig ynddo, ohono neu mewn perthynas â'r lleoliad hwnnw; **ac** sydd wedi'i enwi felly yng nghofrestriad y darparwr gwasanaethau. **DS** O dan rai amgylchiadau (gweler Rheoliad 85 sydd heb gael sylw yn y canllawiau) gall Unigolyn Cyfrifol gael ei ddynodi gan AGC (ar ran Gweinidogion Cymru) ac nid y darparwr gwasanaethau.
Comisiynydd Gwasanaeth	Yr awdurdod lleol neu gorff y GIG sy'n gyfrifol am wneud trefniadau gyda'r darparwr i ddarparu gofal a chymorth i unigolyn.
Darparwr Gwasanaethau (neu ddarparwr)	Person sydd wedi'i gofrestru gydag AGC i ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig.
Staff	• Pobl sy'n cael eu cyflogi gan y darparwr gwasanaethau i weithio yn y gwasanaeth fel gweithiwr cyflogedig neu weithiwr (yn unol ag ystyr Adran 230 Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996); • Pobl sy'n cael eu defnyddio gan y darparwr gwasanaethau o dan gontract ar gyfer gwasanaethau; **Nid yw** hyn yn cynnwys pobl sy'n gallu gweithio fel gwirfoddolwyr.
Yr unigolyn	Oni bai bod y cyd-destun yn nodi fel arall, y plentyn neu'r oedolyn sy'n derbyn gofal a chymorth.
Anghenion yr unigolyn	Anghenion gofal a chymorth y person.
Y Rheoliadau	Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2017.
Y Gwasanaeth	Y gwasanaeth rheoleiddiedig sy'n cael ei ddarparu gan ddarparwr gwasanaethau yn, o neu yn gysylltiedig â'r lleoliad a nodwyd mewn amod yng nghofrestriad y darparwr gwasanaethau.
Gwasanaethau llety	Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau cartrefi gofal, canolfannau preswyl i deuluoedd a llety diogel.
Gwasanaethau cymunedol	Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau cymorth cartref.
Rheoleiddiwr y Gwasanaeth	Yn ymarferol, mae hyn yn golygu AGC yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru wrth arfer eu swyddogaethau rheoleiddio.

Datganiad o Ddiben	Y datganiad o ddiben ar gyfer y lleoliad lle mae'r darparwr yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig ynddo, ohono neu mewn perthynas â'r lleoliad hwnnw.
Rheoleiddiwr y Gweithlu	Gofal Cymdeithasol Cymru.

Dolenni defnyddiol

ACAS www.acas.org.uk

ADSS Cymru www.adsscymru.org.uk

Busnes Cymru www.busnescymru.llyw.cymru/

Arolygiaeth Gofal Cymru www.arolygiaethgofal.cymru

Comisiynydd Plant Cymru www.complantcymru.org.uk/

Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu www.cipd.co.uk

Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru
www.coproductionnetworkwales.wordpress.com/

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd www.food.gov.uk

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch www.hse.gov.uk

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth www.ico.org.uk

Sefydliad Ymchwil ac Arloesedd mewn Gwasanaethau Cymdeithasol www.iriss.org.uk

Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol Cymru www.wlga.cymru/national-commissioning-board-wales

NSPCC www.nspcc.org.uk

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru www.olderpeoplewales.com/wl/Home.aspx

Cyfranogaeth Cymru www.participation.cymru/cy/

Public Concern at Work www.pcaw.org.uk/

Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr www.rpharms.com

SCIE www.scie.org.uk

Gofal Cymdeithasol Cymru www.gofalcymdeithasol.cymru/

Think Local, Act Personal www.thinklocalactpersonal.org.uk

Canolfan Cydweithredol Cymru www.cymru.coop/

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru www.wcva.org.uk

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru www.wlga.gov.uk/